

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol

Trosolwg y Cyfarwyddwr

2018/19



## Cynnwys

<b>1 Rhagair gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau</b>	<b>2</b>
<b>2 Crynodeb o Berfformiad</b>	<b>6</b>
<b>3 Beth y mae eraill yn ei ddweud wrthym am ein gwasanaethau / Sut y mae pobl yn llunio ein gwasanaethau</b>	<b>22</b>
<b>4 Hyrwyddo a gwella llesiant y rheiny yr ydym yn eu helpu</b>	<b>31</b>
Safonau 1 - Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau llesiant y maent am eu cael.	
Safonau 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol.	
Safonau 3 - Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.	
Safonau 4 - Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.	
Safonau 5 - Helpu pobl i gynnal perthynas iach â phobl yn y cartref, yn y teulu ac ar lefel bersonol.	
Safonau 6 - Helpu pobl i gyflawni gwell llesiant economaidd, i gael bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion	
<b>5 Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion</b>	<b>39</b>
a) Ein gweithlu a'r modd yr ydym yn cefnogi eu rôl broffesiynol	
b) Mwy na geiriau / More than Just Words	
c) Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol	
d) Ein Gwaith mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd	
<b>Strwythur Rheoli</b>	<b>46</b>
<b>Atodiad 1 - Blaenoriaethau Allweddol y Gwasanaethau Oedolion a Phlant ar gyfer 2019/20</b>	<b>47</b>
<b>Atodiad 2 – Codau Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal</b>	<b>49</b>
<b>Atodiad 3 – Geirfa</b>	<b>50</b>

# 1 Rhagair gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol



**Fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, mae'n ofynnol gan Arolygiaeth Gofal Cymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fy mod yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant. Dyma fy mhedwerydd adroddiad fel Cyfarwyddwr Sir Gaerfyrddin a'm chweched adroddiad fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Ceir galw cynyddol am wasanaethau, ond mae'n dda gennyf allu adrodd bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn parhau i ddarparu ystod o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol o ansawdd da.

Yn 2019 wynebwyd lefel ddigynsail o bwysau ar gyllidebau a gwasanaethau. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf rydym wedi rhagori ar yr holl ddisgwyliadau wrth reoli'r galw ar draws gofal cymdeithasol plant ac oedolion, gan danwario cyllidebau dros y ddwy flynedd ddiwethaf a dim ond gorwariant bach iawn mewn manau sydd dan bwysau mawr. Er gwaethaf hyn, yn ôl canfyddiadau'r arolygiad diweddar o bobl hŷn "dywedodd pobl wrthym yn rheolaidd eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a oedd wedi'u helpu". Arolygiaeth Gofal Cymru 2019.

Yn y Gwasanaethau Plant, mae buddsoddiad mewn gwaith atal ac arloesi mewn ymarfer Gofal Cymdeithasol wedi lleihau cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r broses hon o reoli'r galw yn fwy trawiadol fyth gan fod gweddill Cymru wedi gweld twf sylweddol yn y costau a'r niferoedd sy'n gysylltiedig â'r grŵp cleientiaid hwn. Mae'r gwasanaeth yn parhau i anelu at leihad pellach mewn niferoedd, er ei fod yn annhebygol o gyflawni arbedion arian parod gan fod opsiynau ataliol amgen yn costio mwy i'w cynnal. Mae cyllideb sylfaenol gymharol y Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn isel, ac mae chwyddiant yn y sector gofal yn golygu nad oes llawer o fannau lle gellir gwneud arbedion pellach heb wneud penderfyniadau anodd a allai fod yn costio mwy yn y tymor hir. Felly, bydd bod yn greadigol i leihau'r galw a'r costau yn hollbwysig dros y blynyddoedd nesaf.

Ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, ein prif bwysau yw cynnwys twf demograffig o 3.4% mewn angen a lefelau uchel o chwyddiant yn y sector gofal. Caiff y rhan fwyaf o'r gwariant ei wneud yn y sectorau gofal preswyl a gofal cartref. Poblogaeth gynyddol o bobl hŷn sy'n bennaf gyfrifol am y twf demograffig, yn enwedig y rheiny sydd dros 85 sy'n byw gyda salwch cronig. Er gwaethaf y twf demograffig hwn, mae gostyngiad o 4.5% wedi bod yn nifer yr oriau o ofal cartref ers 2015. Pe bai'r gwasanaeth a ddarperir wedi tyfu yn unol â demograffeg y boblogaeth, byddai angen cyllid ychwanegol o ryw £2.5 miliwn y flwyddyn arnom. O gyfuno hyn ag effaith ein model comisiynu mwy effeithlon newydd (a gyflwynwyd yn 2015) byddai angen 5 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar y gwasanaeth pe bai'n comisiynu'r un nifer o oriau ag y gwnaeth ym mis Ionawr 2015. Ar ôl y flwyddyn hon dim ond arbedion cyfyngedig fydd yn cael eu cymryd o'r maes hwn. Un flaenoriaeth fydd gwneud ein gwasanaeth mewnol yn fwy effeithlon wrth i'w gyfran o'r farchnad gofal cartref gyfan dyfu.

Rydym wedi bod yn llai llwyddiannus wrth ostwng gofal preswyl, ond mae'r twf o tua 5.1% yn y ddwy flynedd diwethaf yn cymharu'n dda yn erbyn twf poblogaeth o 6.8% yn yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae costau chwyddiant yn y sector yn parhau i fod yn heriol wrth i isafswm cyflogau barhau i gynyddu ar gyfradd flynyddol uchel. Fy marn i yw bod rhywfaint o le i'n niferoedd cyffredinol leihau ymhellach wrth i ni wella systemau sy'n cefnogi pobl yn eu cartrefi. Un o'r prif flaenoriaethau fydd gwella'r defnydd a wneir o'n gwasanaethau mewnol i gynnwys costau ymhellach.

Er bod yna le i wella rhywfaint, mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn

gyson uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ers nifer o flynyddoedd. Yn 2018, nododd Llywodraeth Cymru fod Sir Gaerfyrddin wedi sicrhau llawer o'r canlyniadau addysgol gorau yng Nghymru yn achos plant sy'n derbyn gofal a'r rheiny sy'n gadael gofal.

Mae gennym ymrwymiad hirdymor ar gymorth i deuluoedd a ffocws ar hyn, sydd wedi bod o fudd i'r awdurdod. Trwy'r dull hwn mae 82% o bant yn y gwasanaeth wedi cael eu cynorthwyo i fyw gartref a dychwelodd 19.8% o blant adref o ofal, sydd bron ddwbl cyfradd gyfartalog Cymru.

Mae ein Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn parhau i berfformio'n dda gyda chyfraddau pobl ifanc sy'n mynd i'r ddalfa yn isel iawn, ac mae gennym bartneriaeth dda gyda'r heddlu sydd wedi lleihau'r galw am roi pobl ifanc yn y ddalfa ac sydd wedi creu dulliau arloesol mwy effeithiol ar gyfer troseddau llai difrifol. Mae'r gwasanaeth wedi elwa ar broses ailstrwythuro sy'n ei unioni â gwasanaeth ieuencid y siroedd.

Mae recriwtio gofalywyr maeth wedi bod yn ffocws a bydd angen i ni barhau i wella'r maes hwn os yw am roi'r dewis o leoliadau sydd ei angen arnom.

Rydym wedi ymfalchio yn ein gallu i reoli data a dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru y llynedd:

*"Mae'r awdurdod wedi cael budd o wneud penderfyniadau ar sail data – modelu gweithgarwch gofal cymdeithasol oedolion, costau a'r galw am wasanaethau yn fyw mewn "amser real" o fewn y broses o ymgynghori ynghylch y gyllideb." Bydd datblygu'r gwaith hwn ymhellach yn helpu'r awdurdod ac yn ymestyn manteision penderfyniadau a arweinir gan ddata i bob maes gwasanaeth."*

Fodd bynnag, rhaid i'n systemau foderneiddio ac yn y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithredu ein meddalwedd newydd yn llawn ar gyfer ein gwasanaeth gofal cartref, gan wella'r defnydd effeithiol a wneir o weithwyr gofal er mwyn bod yn fwy effeithlon.

Mae gofal cartref, pan gaiff ei gyflwyno'n effeithlon, yn cynorthwyo oedolion agored i niwed i fyw gartref yn annibynnol cyhyd ag y gallant. Mae hyn yn arbed arian mewn costau ysbytai a gofal preswyl.

### **Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Cartref yng Nghymru a gynhaliwyd yn ystod haf 2016. Dyfynnir David Francis, Prif Arolygydd Cynorthwyol.**

*"Yn ein barn ni, Sir Gaerfyrddin oedd y mwyaf datblygedig o ran datblygu dulliau cynaliadwy o gomisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau" "Nid yw'n chwyldroadol ond mae'n arloesol ac yn flaengar"*

Ym mis Rhagfyr methodd cwmni Allied Care, a oedd yn darparu dros 10% o'n gwasanaeth. Drwy gynllunio da a rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol, gwnaethom gymryd camau pendant i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol er mwyn darparu'r sefydlogrwydd hanfodol i'r gweithlu ac i'r defnyddwyr gwasanaeth. Bellach mae gennym wasanaeth mewdol sy'n gwasanaethu bron i draean o'r farchnad. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd rhaid i ni ystyried yn ofalus iawn sut yr ydym yn cydweithio gyda'r gorau yn y sector preifat er mwyn arloesi a meithrin effeithlonrwydd, a hynny gan sicrhau bod ein gwasanaethau mewdol mewn sefyllfa dda i ddarparu sefydlogrwydd ac ansawdd mewn marchnad ansefydlog. Mae dod â'r gwasanaeth hwn yn fewnol wedi bod yn her i'r gwasanaeth a bydd yn cymryd gweddill 2019 i'r gwasanaeth integreiddio ym mhob ffordd.

Bydd fframwaith newydd ar gyfer darparu gofal cartref yn flaenoriaeth yn ystod y 18 mis nesaf. Fel rhan o hyn, byddwn yn cynnal deialog o fewn y Cyngor ynghylch pa gyfran o'r gofal y dylai'r awdurdod lleol ei ddarparu'n uniongyrchol. Rhaid bod yn fwy effeithlon er mwyn cynyddu cyfran y gofal a ddarperir drwy'r awdurdod lleol.

Yn ystod 2019-21, bydd ein cronfa ddata gwybodaeth reoli, sydd bellach wedi dyddio, yn cael ei huwchraddio a'i gweithredu ar draws gofal cymdeithasol plant ac oedolion a fydd yn golygu cryn newid technolegol i ni. Bydd y broses o uwchraddio'r system newydd, Eclipse, yn galluogi gweithwyr i fod yn fwy effeithlon ac i integreiddio'n agosach â'n hasiantaethau partner. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddangos bod y rheolwyr yn goruchwyllo'r gwaith achos yn well ac, yn hollbwysig, er mwyn gallu dangos hyn yn y cofnod achos. Nid ydym eto'n rhoi system genedlaethol WCCIS ar waith gan fod ein dadansoddiad yn dangos diffygion allweddol yng ngweithrediad y

system hon a gaffaelir yn genedlaethol a'r modd y caiff ei llywodraethu. Byddwn yn cadw golwg ar hyn.

Mae rheoli perfformiad yn parhau i fod yn gryf ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi yn 2017 "bod gan yr Awdurdod drefniadau monitro rheoli perfformiad sefydledig a hygyrch ar waith, yn bennaf trwy ei systemau rheoli perfformiad PIMS a ddefnyddir i olrhain ac asesu newidiadau i wasanaethau a gwerthuso eu heffaith. "

Cyflwyno mesurau ansoddol ac adrodd mewn unrhyw faes rheoli perfformiad y gellir ei wella. Rydym wedi arloesi o fewn ein gwasanaethau atal, sy'n cefnogi adferiad ac adsefydlu. Cafodd y gwaith o greu'r cwmni unigryw Llesiant Delta, sef ein cwmni Teleofal hyd braich (sydd dan berchnogaeth Iwyr y Cyngor), ei gychwyn er mwyn diogelu swyddi a gwasanaethau. Wrth i'r model ar gyfer Teleofal newid nid oeddem ni, fel awdurdod lleol, yn gallu masnachu ac roeddem yn wynebu'r perygl go iawn o fod y gwasanaeth yn dirywio ac yn y pen draw yn cael ei ddarparu gan wasanaethau canolfan alwadau a leolir fel rheol y tu allan i Gymru. Mae llwyddiant y flwyddyn gyntaf wedi rhagori ar yr holl ddisgwyliadau, gan fod y gwasanaeth nid yn unig yn ariannol hunangynhaliol ond ei fod hefyd yn ehangu ac yn cyflogi 15 person ychwanegol. Llwyddodd i wneud hyn gan ddiogelu holl delerau ac amodau'r staff, sy'n golygu bod lefelau cadw ein staff yn well nag erioed o'r blaen. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, gallwn gystadlu â'r sector preifat gyda golwg ar ansawdd, nid cost ac rydym yn dangos defnydd arloesol o dechnoleg. Mae'n wasanaeth cwbl ddwyieithog a bellach gall ddarparu gwir gynnydd rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus Cymru.

Bydd y cynlluniau yn y misoedd i ddod yn cynnwys agor ail swyddfa yng Nghaerfyrddin, wrth i fanteision yr hyn sy'n datblygu i fod yn fusnes ffyniannus fynd ar led trwy'r sir gyfan.

Mae ystod eang o wasanaethau, gwybodaeth a chyngor i ofalwyr bellach ar waith. Fodd bynnag, mae'r adborth gan ofalwyr yn dangos bod llawer mwy i'w wneud a bydd hyn yn flaenoriaeth yn y flwyddyn sydd i ddod. Cytunai Arolygiaeth Gofal Cymru â'r farn hon yn ystod yr arolygiad diweddar gan nodi y dylem "sicrhau bod ystod ddigonol o wasanaethau i ofalwyr ar gael ar draws yr awdurdod lleol".

Mae datblygu mentrau megis 'Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig' a 'Cymunedau sy'n Deall Dementia' hefyd yn dechrau gwneud gwahaniaeth gan fod llawer o'n cymunedau yn manteisio ar y mentrau hyn i wneud eu cymuned yn fwy cydnerth. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth fod y mentrau hyn yn lleihau'r galw statudol yn amlwg eto.

Yn maes Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, mae'r galw yn parhau i dyfu. Ceir nifer gynyddol o blant ac oedolion ag anableddau sy'n byw yn hirach wrth i wasanaethau iechyd gynorthwyo pobl sydd â chyflyrau iechyd cronig neu anableddau yn well nag erioed o'r blaen. Mae disgwyliadau'r defnyddwyr gwasanaeth am gael bod yn annibynnol wedi cynyddu a hynny'n gywir. Mae llawer o'n gwasanaethau preswyl a'n gwasanaethau dydd sydd wedi'u lleoli mewn adeilad wedi dyddio fwyfwy, wrth i deuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth alw am wasanaethau sy'n cynyddu eu hannibyniaeth gymaint ag y bo modd.

Yn y gorffennol, mae Sir Gaerfyrddin wedi treulio cyfran ormodol o'i chyllideb ar ofal preswyl i oedolion â chyflyrau iechyd meddwl a / neu anableddau dysgu. Rydym wedi bod â thros 100 o bobl mewn lleoliadau gofal preswyl dros flynyddoedd lawer. Bellach mae gennym raglen ar waith i ddarparu gwasanaethau cymunedol wedi'u teilwra ar gyfer yr oedolion mwyaf bregus sydd ag anabledd. Trwy ddatblygu'r lefelau cymorth uchel hyn yn y gymuned, rydym wedi gweld lleihad o 8% ymhlith nifer yr oedolion sydd mewn lleoliad gofal preswyl. Rydym yn disgwyl y bydd llawer o brosiectau eraill ar gyfer byw yn y gymuned, gyda lefel uchel o gymorth, yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd y rhain yn lleihau'r gwariant mewn gofal preswyl y tu allan i'r sir ac yn rhyddhau arian er mwyn buddsoddi ymhellach mewn cymorth cymunedol.

Rydym wedi parhau â'n rhaglen o drawsnewid y ddarpariaeth ddydd ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae hyn wedi cynnwys ailgynllunio pwrpas y gwasanaeth i fodloni dymuniadau pobl, gan wyro oddi wrth ofal a gweithgarwch traddodiadol i gynnwys ymgysylltu cymunedol ac annibyniaeth a chefnogi mwy o bobl nag erioed o'r blaen trwy raglenni gofal a gweithgarwch arloesol. Mae'r cynnydd mewn gwariant ar daliadau uniongyrchol, er eu bod yn peri her o safbwynt ein cyllidebau, yn caniatáu i lawer o ddefnyddwyr wneud

dewisiadau ynghylch y gwasanaethau y maent am eu cael, pryd y maent am eu cael. Wrth wneud hynny, rydym yn diwallu anghenion yn gynharach, yn atal argyfwng ac yn cynorthwyo gofalwyr i barhau â'u gwaith hanfodol.

Cawsom rywfaint o lwyddiant wrth gyfeirio galwadau oddi wrth wasanaethau statudol trwy gyflwyno ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Mae gwneud angen mwy o waith yn y maes hwn i egluro llwybrau a sicrhau bod pobl yn cael y cyngor a'r cymorth iawn ar yr adeg iawn. Mae adolygiad llawn o'r gwasanaeth hwn ar y gweill er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar botensial y model.

Rwyf yn Gadeirydd ar Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR). Partneriaeth strategol yw hon sy'n cynnwys asiantaethau statudol ac anstatudol sydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod pobl a dinasyddion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu diogelu'n briodol. Mae Bwrdd Diogelu CYSUR yn gweithio'n agos iawn gyda Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS).

Mae'r Bwrdd wedi parhau i aeddfedu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda'r agenda diogelu oedolion a phlant o bob oed bellach wedi'i sefydlu'n gadarn ac wedi'i gwreiddio yn strwythur a phrosesau llywodraethu'r Bwrdd ar lefel weithredol ac ar lefel is-grŵp.

Mae cydweithredu a herio effeithiol yn rhan o fusnes bob dydd "Mae arferion diogelu ar draws grŵp amlddisgyblaeth yn gydweithredol, ceir cysylltiadau gwaith da ar lefelau strategol a gweithredol". Arolygiaeth Gofal Cymru 2019. Yn ystod y flwyddyn hon cafodd nifer o brosiectau allweddol eu cwblhau a'u lansio gan gynnwys y Strategaeth ranbarthol - Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Bywydau Mwy Diogel, Cydberthnasau Iachach, y Ddogfen Trothwy Ranbarthol ar gyfer Oedolion Mewn Perygl a'r Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol. Bellach mae pob un o'r rhain yn dechrau cael effaith uniongyrchol ar arferion diogelu proffesiynol.

Mae nodi a lleadaenu gwersi a ddysgwyd o adolygiadau achos wedi bod yn ffocws allweddol i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyhoeddi adolygiadau pellach o ymarfer plant a datblygu a gweithredu fforwm ranbarthol ar gyfer ymgymryd â fforymau proffesiynol amlasiantaethol wedi helpu i ddatblygu diwylliant o ddysgu ymhlith ein hymarferwyr diogelu amlasiantaeth.

Fel Bwrdd rydym wedi parhau i hyrwyddo'r agenda ar gyfer plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref, ac rydym yn croesawu cynigion y Llywodraeth i gryfhau'r mesurau diogelu drwy gyflwyno canllawiau statudol. Er hynny, rydym yn cadw golwg ar ddull gweithredu'r Llywodraeth yn y maes hwn.

Mae'r gwersi y mae Sir Gaerfyrddin a'r rhanbarth wedi eu dysgu o brofiad Powys yn cynnwys y modd y caiff gwasanaethau sensitif eu rheoli, yr angen hanfodol am gadw staff rheng flaen ac am i asiantaethau osgoi toriadau cyllideb anghymesur ac afrealistig. Rwyf yn hyderus bod y bwrdd diogelu bellach mewn sefyllfa gryfach i herio partneriaid.

Rwyf yn ymfalchïo yn ein gweithlu ymrwymedig a brwdfrydig, yn enwedig canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2019 ynghylch ein hymarfer gwaith cymdeithasol: "Gwelsom fod ymarferwyr trugarog sy'n gweithio'n dda i nodi'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn nodweddu'r ymarfer".

Hoffwn ddiolch i'r holl staff a gwasanaethau am eu cyfraniad rhagorol, yn aml o dan amgylchiadau heriol. Mae eu gwaith yn hollbwysig er mwyn cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymuned.

## **Jake Morgan,**

Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol


## 2 Crynodeb o Berfformiad

### Perfformiad y Gwasanaethau Oedolion

Cyfanswm y bobl a gefnogwyd gennym yn ystod y flwyddyn oedd 5,189 (Oedolion 18+ oed), gyda chyfanswm o 7,658 o wasanaethau wedi'u comisiynu.

Mae'r graff isod yn dangos cyfradd yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o bobl 18 + oed a 75 + yn Sir Gaerfyrddin.

**Oedi cyn Trosglwyddo Gofal am Resymau Gofal Cymdeithasol**




Bu cynnydd bach mewn achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol, er bod y niferoedd yn aros yr un peth ag yr oeddent yn y blynyddoedd blaenorol. Y prif resymau yw'r cymhlethdod cynyddol a waethygir pan fydd yr henoed yn aros yn yr ysbyty a'r tangyflenwad cyffredinol o ofal cartref. Mae nifer y bobl hŷn sy'n profi oedi yn yr ysbyty am resymau gofal cymdeithasol yn gyfran fach iawn o'r oedi cyffredinol hwnnw o fewn y system iechyd. Un gwelliant allweddol sydd ei angen i leihau oedi yn yr ysbyty yw gwella arferion nyrsio a therapi yn yr ysbyty i wella symudedd unigolion pan gânt eu derbyn, gan felly leihau'r angen am ofal.

## Adolygiadau

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mae nifer yr adolygiadau statudol sydd heb eu cwblhau yn isel ar draws yr adran, gyda data'n dangos gwelliant sylweddol mewn perfformiad o gymharu â 2016/17.

Mae'r is-adran Oedolion Hŷn wedi cwblhau cyfanswm o 3,251 o adolygiadau, gyda 465 o adolygiadau heb eu cwblhau ar ddiwedd mis Mawrth. Mae'r is-adran Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth wedi cynnal cyfanswm o 1,627 o adolygiadau, gyda 3 adolygiad heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dyma'r gorau y bu ers blynyddoedd lawer.


### Adolygiadau



## Gofal Preswyl

Cynnydd yn y nifer a dderbyniwyd i ofal preswyl hirdymor o 1041 i 1097. Mae data eleni yn dangos tuedd ar i fyny yn nifer y derbyniadau o gymharu â data 2017/18.

### Nifer y Cleientiaid mewn Lleoliadau Gofal Preswyl ar Ddiwedd y Mis




Hyd cyfartalog arhosiad mewn gofal preswyl oedd 912 diwrnod yn 2018/19, i fyny o 860 diwrnod yn 2017/18.



## Gofal Cartref

Yn 2017/18 gwelwyd cynnydd yn y gofal cartref a gomisiynwyd, o 1031 i 1076 o gleientiaid. Parhaodd y cynnydd hwn yn 2018/19 gan godi o 1083 i 1131

Nifer y Cleientiaid sy'n Derbyn Gofal Cartref ar Ddiwedd y Mis



## Ail-alluogi


Yn dilyn ymyriad ail-alluogi, cafodd 41% o ddefnyddwyr gwasanaeth eu rhyddhau'n llwyddiannus heb fod ganddynt unrhyw anghenion am wasanaeth. Aeth 42% ymlaen i dderbyn cynllun gofal a chymorth ar gyfer gwasanaethau hirdymor; er bod gofal cartref yn cael ei ddarparu roedd lleihad yn nifer yr oriau a gomisiynwyd. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae lle i wella.

## Asesiadau

Llwyddom i gwblhau mwy o asesiadau eleni nag y gwnaethom y llynedd. Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion/gofalwyr oedd:

Asesiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gwblhawyd ar gyfer oedolion = **5,147**  
 Asesiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gwblhawyd ar gyfer gofalwyr = **387**


Canlyniadau Ail-alluogi 2017/18



## Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Cymerodd y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gyfanswm o 10,565 o alwadau, gan gynorthwyo a chynghori 6,244 o bobl.

### Canlyniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth




Arweiniodd 12% o'r asesiadau a gynhaliwyd gan y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth at roi gwybodaeth a chyngor. Bydd gwella'r gyfradd hon fel bod pobl yn cael y cyngor iawn ar yr adeg iawn gyda goruchwyliaeth briodol gan reolwyr yn flaenoriaeth yn y flwyddyn i ddod. Felly, yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn adolygu'r gwasanaeth newydd hwn i sicrhau bod gennym oruchwyliaeth ddigonol gan reolwyr a'i fod yn darparu gwerth da am arian. Yn y Gwasanaeth Plant, mae ein tîm asesu canolog ar gyfer y Sir yn parhau i ymateb yn amserol i'r cyhoedd.

## Cwynion a Chanmoliaeth

Rydym wastad yn ceisio datrys cwynion yn gynnar gan sicrhau cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r sawl sy'n gwneud y gŵyn. Pan dderbynnir cwyn newydd caiff rheolwyr y gwasanaeth wybod am hyn yn gynnar i'w helpu i nodi unrhyw faterion, ac mae hyn yn rhoi adborth defnyddiol i ni. Mae'r cwynion a'r ganmoliaeth a geir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn ein helpu i bennu'r meysydd y gallem eu gwella a'r meysydd yr ydym yn perfformio'n dda ynddynt.

Yn ystod 2018/19, nifer yr unigolion a dderbyniodd wasanaeth oedd 5,189 (Oedolion 18+ oed). Cafwyd 133 o gŵynion yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol oedolion, a chafwyd 152 o ganmoliaethau. O'r cwynion hyn, ymchwiliwyd i 47% ar gam datrysiad lleol 1, gyda 8% yn mynd ymlaen i ymchwiliad ffurfiol ar gam 2. Cofnodwyd bod 38% o'r cwynion a dderbyniwyd yn cael eu hailgyfeirio naill ai gan nad oedd yr achwynydd yn dymuno mynd trwy weithdrefn gwyno ffurfiol neu gan nad oedd y gŵyn yn dod o dan y gofynion statudol. Roedd 7% wedi'u cofnodi o dan y categori dim camau pellach.

### Nifer y Cwynion Gofal Cymdeithasol Oedolion a gafwyd yn ystod 2018/19 (Cyfanswm = 133)



### Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS)

Mae'r perfformiad mewn perthynas â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn. Mae Dyfarniad y Goruchaf Lys a ostyngodd y trothwyau ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2014 wedi cael effaith arwyddocaol ar y timau gwaith cymdeithasol gyda nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu ddengwaith yn Sir Gaerfyrddin. Ar 31 Mawrth roedd yna 386 ar y rhestr aros ar gyfer asesiad DoLS; mae hyn i lawr o 623 y flwyddyn flaenorol ac yn adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol.

### Diogelu

Mae'r prosesau diogelu wedi cael eu symleiddio a chyflwynwyd systemau newydd i fonitro perfformiad yn fwy effeithiol a galluogi penderfyniadau mwy gwybodus ac amserol i gael eu gwneud. Mae canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn y cyfnod o 7 diwrnod wedi cynyddu o 75.3% yn 2016/17 i 92.54% yn 2017/18 a 95.47% yn 2018/19.

### Canlyniadau'r Arolwg Gofal Oedolion

Yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gasglu gwybodaeth am bobl sy'n defnyddio eu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol drwy holiadur blynyddol.

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019. Derbyniodd y derbynwyr yr holiadur drwy'r post ar ôl cael eu dewis ar hap o'n system CareFirst. Roedd gan bawb a gymerodd ran yn yr arolwg gynllun cymorth neu roeddent yn derbyn gwasanaethau gan yr awdurdod lleol.


Derbyniwyd 634 o ymatebion i'r arolwg. Cawsom 608 o arolygon yn Saesneg a chafwyd 26 o ymatebion yn Gymraeg.

- Teimlai 89% eu bod yn byw mewn cartref sy'n cynnal eu llesiant yn y modd gorau
- Atebodd 49% 'Ydw' i'r cwestiwn a allent wneud y pethau a oedd yn bwysig iddynt.
- Teimlai 53% eu bod yn rhan o gymuned.
- Roedd 86% yn hapus â'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn gan deulu, ffrindiau a chymdogion.
- Dywedodd 83% eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cwmpo y tu mewn a'r tu allan i'w cartref.
- Dywedodd 79% o bobl eu bod yn meddwl eu bod yn cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan fydd angen hyn arnynt.
- Roedd 78% o'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Teimlai 93% eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- Roedd 85% o bobl yn hapus â'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn
- Gwnaeth 70% eu penderfyniad eu hunain i fyw yn y Cartref Gofal.

## Perfformiad y Gwasanaethau Plant

Mae nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant wedi parhau i amrywio eleni, ar ôl gostwng yn sylweddol i 73 (ar 31/3/19) o gymharu â'r llynedd sef 92. Mae hyn yn ganlyniad ardderchog ac yn dystiolaeth o'r gwaith a wneir gyda phlant a theuluoedd i leihau risg a sicrhau bod cynlluniau diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol ar draws y model Signs of Safety neu'n gweithio ar y cyd ag arferion systemig a chyfarfodydd rhwydwaith teuluoedd yn gynnar yn y broses. Mae'r broses yn fwy rhyngweithiol ac yn galluogi teuluoedd i gymryd rhan mewn modd agored a gonest, gan adeiladu ar gryfderau.

### Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fel ar 31 Mawrth



Roedd 84.6% o blant yn fodlon â'u gofal a'u cymorth (o gymharu ag 80.7% yn 2017/18)

### Adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2018/19:



Cwblhawyd 98.7% o Adolygiadau Amddiffyn Plant o fewn yr amserlenni (o gymharu â 95.7% yn ystod 2017/18)



Cwblhawyd 90.6% o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn yr amserlenni o gymharu ag 88.9% yn 2017/18



Cwblhawyd 80.8% o Adolygiadau Gofal a Chymorth o fewn yr amserlenni o gymharu â 71.2% yn 2017/18


Mae'r uchod i gyd yn adolygiadau amlasiantaeth. Efallai y bydd angen eu canslo ar fyr rybudd oherwydd nifer o resymau e.e. presenoldeb staff annigonol yn yr asiantaeth, salwch - rhiant/plentyn/asiantaeth arall/gweithiwr gofal plant ac ati. Nid yw'r adolygiadau bellach yn fesur Llywodraeth Cymru felly ni ellir eu cymharu'n genedlaethol, ond rydym o'r farn eu bod yn fesurau pwysig a chânt eu cadw'n lleol gennym ni.

Mae ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael eu monitro'n agos ac mae system newydd ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r amserlenni y cytunwyd arnynt. Bydd ein system newydd Eclipse o gymorth mawr i ni wrth sicrhau bod systemau monitro rheolaeth yn eu lle.

## Plant sy'n Derbyng Gofal:

Rydym wedi parhau i weld gostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda 183 o blant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2019, sydd gyda'r isaf yng Nghymru ac yn un o'r ffigurau gorau fesul pen o'r boblogaeth. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn gostwng ers 2012 pan oedd niferoedd Sir Gaerfyrddin ar eu uchaf yn 271 (gostyngiad o 32%), er gwaethaf cynnydd o 15% yn genedlaethol ers 2010.

**Nifer y Plant sy'n Derbyng Gofal fel ar 31 Mawrth**



Ein nod yw parhau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Rydym wedi gosod targed i'n hunain o gyflawni lleihad o 22 yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y tair blynedd nesaf (8, 7 a 7 yn y drefn honno) sef gostyngiad o 12% erbyn 31/3/2022.


## Plant sy'n Derbyng Gofal a leolir y tu allan i'r Sir:

Roedd 19 o blant wedi'u lleoli y tu allan i Sir Gaerfyrddin (ar 31/3/19). O'r rhain lleolwyd 9 ohonynt gyda gofalyr maeth Teulu a Ffrindiau, 7 gyda gofalyr maeth Sir Gaerfyrddin sy'n byw y tu allan i Sir Gaerfyrddin, mae 2 blentyn wedi'u lleoli gyda Gofalyr Maeth Asiantaeth (un yn ei arddegau yn ceisio lloches ar ei ben ei hun a ddewisodd fynd i fyw y tu allan Sir Gaerfyrddin, ac roedd y llall yn ei arddegau wedi dianc o leoliadau blaenorol ond mae bellach wedi ymgartrefu), ac roedd angen ymyriad therapiwtig ar yr unigolyn arall ac mae wedi'i lleoli mewn cartref preswyl i blant y tu allan i Sir Gaerfyrddin.

Daeth 77 o blant i dderbyn gofal yn ystod 2018/19, ac roedd rhieni 3 phlentyn wedi bod yn hysbys i'r gwasanaeth Anableddau Dysgu (3.9%).

Ar 31/3/18 (data cymaradwy diweddaraf Llywodraeth Cymru) Sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer isaf ond un o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth sef 52. Ers hynny mae hyn wedi gostwng ymhellach i 50 (ar 31/3/19).

**Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018 fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol**



Cyhoeddwyd Tachwedd 2018


Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin wedi parhau i ostwng ers 2012, pan oedd gennym 72 o blant mewn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth. Caiff ein sefyllfa gyffredinol ei helaethu o ystyried bod llawer o awdurdodau yn profi cynnydd nad sydd dan reolaeth. Dylid nodi bod ein derbyniadau i ofal yn parhau i fod yn gymharol sefydlog ond rydym wedi gweld plant a phobl ifanc yn dod allan o'r system ofal yn gyflymach, naill ai trwy achosion gofal neu trwy ddychwelyd at aelodau o'r teulu.

Mae ein cyfradd yn llai o nodwedd o gymharu â lefelau Lloegr o blant mewn gofal cyhoeddus. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad a'n buddsoddiad mewn cymorth i deuluoedd, sydd yn fuddsoddiad sylweddol i'w gynnal ond sy'n arbed arian yn y pen draw. Byddwn yn parhau â phroses o adolygu, archwilio ac adfyfrio er mwyn sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng cymorth i deuluoedd ac ymyrraeth mewn bywyd cyhoeddus.

Tra bod llawer o awdurdodau wedi ceisio amddiffyn y sefyllfa o gael lefelau uchel o blant yn y system ofal fel sefyllfa sy'n deillio o fenter lleihau a gosod targedau'r Prif Weinidog, rydym wedi cynnal sefyllfa lle dylem wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi teuluoedd. Rydym yn derbyn plant i'r system ofal fel dewis olaf yn unig, ond ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau i amddiffyn plant os oes angen.

## Sefydlogrwydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal:


**% y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth a fu mewn 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn**



Rydym wedi gweld gostyngiad bach mewn perfformiad eleni gyda golwg ar symud lleoliad 3 gwaith neu fwy, gyda 19 o blant wedi symud 3 neu fwy o weithiau (10.4%) o gymharu â 17 o blant (8.8%) yn ystod 2017/18. Fodd bynnag, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng i 183 ac mae ymhlith y gorau yng Nghymru. Mae'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, fodd bynnag, wedi effeithio ar ein ffigurau gwaelodlin. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn parhau i'w fonitro'n fanwl.

Mae sefydlogrwydd mewn ysgolion hefyd yn ffactor pwysig wrth wella canlyniadau, ac felly mae'n bwysig nodi bod plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin yn profi llawer llai o symudiadau ysgol nag yn unman arall yng Nghymru – 0.9% yn ystod 2018/19 (gwell na chyfartaledd Cymru sef 11.5% yn 2017/18).


### % y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth a newidiodd ysgol unwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn



### Cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal yn Sir Gaerfyrddin

Mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ers nifer o flynyddoedd. Yn 2018 nododd Llywodraeth Cymru fod Sir Gaerfyrddin wedi sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau yng Nghymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

### Cyrhaeddiad TGAU L1 a L2



L1 = 5 TGAU A \*-G neu gyfwerth; L2 – 5 TGAU A \*-C neu gyfwerth; L2 +5 TGAU A \*-C neu gyfwerth yn cynnwys Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg Mamiaith. O'r 18 disgybl a gofrestrwyd ar gyfer TGAU eleni roedd gan 5 ddatganiad o Angen Dysgu Ychwanegol

Blwythyn	Disgyblion a Gofrestrwyd	Cyflawni L1	Cyflawni L2
2011-12	15	7	2
2012-13	18	8	3
2013-14	14	5	3
2014-15	18	5	1
2015-16	15	11	7
2016-17	19	15	9
2017-18	18	13	8

## Pobl ifanc sy'n gadael gofal



Mae 64.7% o'r rheiny a adawodd ofal yn ystod 2017/18 yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (h.y. 11 allan o 17 o bobl ifanc). (SCC/34a). Yn well na chyfartaledd Cymru, sef 51.4%



Mae 61.1% o'r rheiny a adawodd ofal yn ystod 2016/17 yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (h.y. 11 allan o 18 o bobl ifanc). (SCC/34b). Yn well na chyfartaledd Cymru, sef 51.4%

Mae'r tîm Rhianta Corfforaethol, Cam Nesa, yn darparu ystod o hyfforddiant a chymorth i bobl sy'n gadael gofal er mwyn helpu i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Ar 31/3/19 roedd sefyllfa'r rheiny a adawodd ofal yn Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

- 59 mewn Addysg Bellach
- Roedd 11 wedi cofrestru ar gyrsiau prifysgol Israddedig
- Roedd 1 yn ymgymryd â chymhwyster ôl-raddedig
- Roedd 14 mewn cyflogaeth amser llawn
- Roedd 8 mewn profiad gwaith â thâl
- Roedd 12 yn ymgymryd â dysgu yn y gwaith/prentisiaethau
- Roedd 16 yn ennill cymhwyster sy'n gysylltiedig â gwaith
- Roedd 8 yn cwblhau'r rhaglen 'STAR'
- Roedd 3 yn cwblhau'r cwrs hyfforddi Cyn-denantiaeth
- Roedd 1 person ifanc wedi'i ddewis i hyfforddi gyda Thîm Rhwyfo Merched Prydain
- Roedd 5 yn mynychu hyfforddiant antur hwylio 'Her Cymru' – wedi cwblhau Lefel 3 mewn arweinyddiaeth
- Llwyddodd 11 i basio eu prawf Theori neu'u prawf Gyrru
- Roedd 33 o bobl ifanc yn byw'n annibynnol
- Roedd 10 yn cymryd rhan mewn diwrnodau gwirfoddoli cymunedol
- Roedd 2 berson ifanc yn gwirfoddoli gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Heddlu Dyfed-Powys

Mae **Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru** yn parhau i berfformio'n dda, er gwaethaf yr heriau yn sgil maint ac amrywiaeth y rhanbarth. Mae'r galw yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol am leoliadau mabwysiadu yn parhau i dyfu. Yn unol â'r darlun cenedlaethol mae bodloni'r galw am leoliadau mabwysiadu yn parhau i fod yn her. Bu cynnydd yn y ceisiadau am gymorth mabwysiadu eleni wrth i'r ymwybyddiaeth a'r disgwyliadau gynyddu. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Adoption UK yn parhau i weithio gydag ysgolion, timau maethu a thimau rhianta corfforaethol ar draws y rhanbarth i wella cymorth i deuluoedd sy'n mabwysiadu.

Yn ystod 2018/19 (Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru):

- Cafodd 35 o blant eu 'rhoi i'w mabwysiadu' yn y rhanbarth
- Gwnaed 31 o benderfyniadau y 'dylid rhoi plant' i'w mabwysiadu
- Gwnaed 36 o Orchmynion Lleoli
- Cyflwynwyd 30 o Orchmynion Mabwysiadu
- Cafodd 35 o blant eu rhoi gyda mabwysiadwyr




## Gwasanaethau Ataliol:

Yn y tymor hir erys ein pwyslais ar atal a chadw plant yn eu cartrefi gyda'u teuluoedd, y tu allan i'r system ofal lle bynnag y bo'n bosibl, yn ogystal â darparu adnoddau ychwanegol i ofalwyr maeth i gefnogi plant yn eu gofal er mwyn osgoi'r angen am eu symud ble bynnag y bo modd.




Yn ystod 2018/19, cafodd 82.3% o blant gymorth i barhau i fyw gyda'u teulu, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 68.4% (2017/18), a dychwelwyd 19.8% o blant adref o ofal yn ystod y flwyddyn 2018/19 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 10.5%.

### Mesuriad 25 - % y plant a gafodd gymorth i barhau i fyw gyda'u teulu



	16/17	17/18	18/19
Cyflawni	79.7%	81.5%	82.3%
Chwarter Isaf	63.8%	63.9%	
Chwarter Uchaf	74.3%	74.5%	
Cymru Gyfan	69.2%	68.4%	

### Mesuriad 26 - % y plant sy'n derbyn gofal a dychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn



	16/17	17/18	18/19
Cyflawni	24.6%	22.7%	19.8%
Chwarter Isaf	12.2%	7.4%	
Chwarter Uchaf	15.0%	12.1%	
Cymru Gyfan	13.6%	10.5%	

Dechreuodd y rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf** ym mis Ebrill 2018 ac roedd yn cynnwys 13 o brosiectau, gydag wyth yn cael eu cyflwyno gan yr Awdurdod Lleol a phump yn cael eu cyflwyno gan y trydydd sector a chan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r prosiectau wedi parhau i weithio tuag at atal a lliniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Yn ystod 2018/19:

- Cafodd 9291 o unigolion gymorth gan Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2018/19
- Cafodd 6591 o unigolion newydd gymorth.
- Cynhaliwyd 1005 o Fframweithiau Asesu Teuluoedd ar y Cyd gan asiantaethau sengl, ac aeth 51 ohonynt ymlaen i'r Tîm o Amgylch y Teulu.
- Gweithiodd prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf gyda 144 o gynlluniau Tîm o Amgylch y Teulu
- Caewyd 699 Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd gyda symudiad ymlaen o 548 (78%) ar yr offeryn pellter a deithiwyd.
- Cafodd 58 o achosion eu camu i fyny i'r gwasanaethau plant, a chafodd 110 o achosion eu camu i lawr i Teuluoedd yn Gyntaf.
- Roedd Gweithwyr Allweddol o brosiect a gomisiynwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynlluniau Tîm o Amgylch y Teulu.

O fis Ebrill 2019 bydd y rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf** yn cael ei chynnwys gyda chwe ffrwd ariannu arall o dan y grant Plant a Chymunedau. Derbyniwyd dyraniad dangosol o £6.4 miliwn ar gyfer 2019-20 gan Lywodraeth Cymru. Y rhesymeg y tu ôl i uno'r grantiau yw y bydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd rhwng rhaglenni i ateb y galw. Y nodau yw y bydd y grant newydd hwn yn helpu i wella ac integreiddio'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed yn well.

Mae prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf wedi ymgysylltu â'r pedair ysgol gynradd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen SHEP sy'n darparu prydau iach, addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol a sesiynau cyfoethogi yn ystod gwyliau'r ysgol i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

Bellach caiff y rhaglen **Dechrau'n Deg** ei chyflwyno'n llawn mewn 18 ardal yn Sir Gaerfyrddin sy'n cwmpasu 768 o godau post i gyd.



**Mae 1832 o blant (0-3 oed) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn gallu elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg**

- 79.2% oedd presenoldeb plant mewn lleoliad gofal plant di-dâl Dechrau'n Deg a neilltuwyd ar gyfer plant cymwys 2-3 oed i'w paratoi ar gyfer yr ysgol. Er ein bod ni wedi methu ein targed o 80.0% o drwch blewyn, mae'n well na chanlyniadau 2017/18 sef 77.0%. Yn ddiweddar rydym wedi adolygu ein polisi presenoldeb a'n prosesau dadgofrestru mewn lleoliadau gofal plant, a bydd gwaith yn parhau ochr yn ochr â darparwyr gofal plant ac ymwelwyr iechyd i gynyddu cyfraddau presenoldeb.
- Roedd 95% o deuluoedd sydd ag anghenion llesiant cymdeithasol ychwanegol cysylltiedig â thlodi, sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, yn derbyn ymyriadau amser penodol gan y Tîm Dechrau'n Deg ehangach. Rydym yn falch ein bod wedi rhagori ar ein targed.
- Cafwyd cyfradd absenoldeb anawdurdodedig o 2.5% mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg rhad ac am ddim a neilltuwyd ar gyfer plant 2-3 oed cymwys i'w paratoi ar gyfer yr ysgol. Rydym yn falch ein bod wedi rhagori ar y targed o 3.5%. Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr gofal plant ac ymwelwyr iechyd i gynnal/gwella'r cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r dull **Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)** ar draws y sir ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed. Mae'r ddogfen Cymhwysedd ynghylch trothwyon a mynediad i wasanaethau TAF wedi'i chwblhau ac mae'r Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd (JAFF) newydd yn weithredol o 1 Ebrill. (\*Offeryn asesu yw'r JAFF a wneir mewn partneriaeth â'r teulu ac a ddefnyddir i nodi anghenion y teulu cyfan er mwyn sicrhau'r help iawn ar yr adeg iawn). Mae'r tîm TAF Mewn Ysgolion newydd wedi dechrau ar y cyfnod ymsefydlu.

Rydym yn parhau i gysylltu'n rheolaidd â'r Tîm Atgyfeirio Canolog a thimau gofal plant eraill, yn ogystal â Lles Addysg, penaethiaid, staff ADY a staff addysgu eraill, a Dechrau'n Deg er mwyn galluogi teuluoedd i gael mynediad i'r help iawn ar yr adeg iawn. Mae cysylltiadau cadarnach yn cael eu sefydlu â'r maes iechyd fel rhan o'r estyniad hwn i'n dull gweithredu, a bydd yn ffocws allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r Tîm Camau Bach wedi ymestyn eu cylch gorchwyl ac maent bellach yn darparu gwasanaethau i blant o oedran geni nes eu bod yn 16 oed.

Mae gennym **107 o warchodwyr plant cofrestredig** yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, sy'n cynnig cyfanswm o 767 o leoedd gofal plant cofrestredig

Yn ystod 2018/19:

9 childminder briefing sessions (inc. 1-1) have been held

- Daeth 23 o bobl iddynt
- 12 o'r ardaloedd a dargedwyd

Daeth 24 o ymgeiswyr i'r cwrs gwarchodwyr plant CYPOP5

- 9 o'r ardaloedd a dargedwyd

Cofrestrwyd 6 gwarchodwr plant newydd

- 2 yn siarad Cymraeg

Rydym wedi parhau i archwilio'r posibilrwydd o **ddefnyddio tir ysgolion** y tu allan i'r oriau addysgu i alluogi plant i gael mwy o fynediad i gyfleoedd chwarae. Mae pob ysgol newydd yn cael ei chynllunio i ganiatáu hyn. Mae hyfforddiant chwarae yn cael ei ddarparu i leoliadau chwarae a gofal plant, ynghyd ag ysgolion cynradd ar draws y sir er mwyn gwella ansawdd profiadau chwarae i blant.

Cyflwynodd y Tîm Llesiant Plant sy'n Derbyn Gofal hyfforddiant **Ymwybyddiaeth o Ymlyniad** i ysgolion er mwyn eu paratoi'n well i allu diwallu anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol plant agored i niwed. Mae pob un o'r 73 o ysgolion sydd â phlant sy'n derbyn gofal wedi manteisio ar yr hyfforddiant hwn, ac mae'n cael ei ymgorffori fel rhan o'r 'rhaglen trawsnewid ymddygiad' mewn ysgolion. Mae'r Strategaeth Llesiant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn amlinellu'r dulliau a'r hyfforddiant sydd ar gael.

Mae **timau ataliol** megis y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd a'r Tîm Ar Ffiniau Gofal wedi cael eu hailgynllunio er mwyn canolbwyntio ar weithio'n ddwys gyda theuluoedd a phlant sydd mewn perygl o gael eu derbyn i ofal, er mwyn eu galluogi i aros gyda'u teuluoedd pryd bynnag y mae hynny'n bosibl, gan ddefnyddio dull integredig ar y cyd ag eraill.

Mae'r gwasanaeth **Gofalwyr Ifanc** yn cyflwyno amrywiaeth o fentrau ar gyfer gofalwyr ifanc, ac yn gweithio ar y cyd ag ysgolion, y sector iechyd a'r sector gwirfoddol, i sicrhau eu bod yn 'ymwybodol o ofalwyr ifanc'. Mae ysgolion yn cymryd rhan yn y Wobr Ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc.

Rydym wedi bod yn adolygu ein **gwasanaeth anabledd** i sicrhau bod yna bontio a llwybrau di-dor o fod yn blant i fod yn oedolion. O'r 1af o fis Mai 2018 caiff pob atgyfeiriad ar gyfer awtistiaeth/anabledd yn achos plant/pobl ifanc 0-25 oed eu rheoli drwy ein Tîm Atgyfeirio Canolog i Blant.


Mae hyn wedi symleiddio ein proses i blant a theuluoedd, gan sicrhau eu bod yn cael yr help sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt, gan osgoi gorfod trosglwyddo teuluoedd rhwng gwasanaethau pan fydd plant yn troi'n oedolion.

Er mwyn gwella **dewisiadau llety** sefydlwyd Fforwm Tai 16-25 a datblygwyd llwybr 16-25 yn unol â chynllun strategol Cefnogi Pobl ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf, ac mae'r cyllid wedi'i gymeradwyo. Cafodd Llety â Chymorth 'a mwy' ei dendro'n llwyddiannus a dechreuwyd recriwtio ar ei gyfer ym mis Tachwedd 2018. Y nod yw cynyddu'r ddarpariaeth llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc agored i niwed 16-25 oed, gan eu galluogi i aros yn eu cymdogaeth eu hunain, a darparu cymorth ychwanegol mewn ennill sgiliau bywyd er mwyn iddynt fod yn oedolion ifanc hyderus. Mae fflat hyfforddi yn cael ei ddatblygu hefyd i gynorthwyo pobl ifanc sydd bron yn barod i symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

## Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:

Rydym wedi parhau i weld cynnydd yn nifer y cysylltiadau a dderbynnir gan ein Tîm Atgyfeirio Canolog i Blant, er bod nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer asesiad wedi gostwng ychydig. O'r 1af o fis Mai 2018 caiff pob atgyfeiriad ar gyfer awtistiaeth/anabledd yn achos plant/pobl ifanc 0-25 oed hefyd ei reoli drwy ein Tîm Atgyfeirio Canolog i Blant. Mae hyn wedi symleiddio ein proses i blant a theuluoedd, gan sicrhau eu bod yn cael yr help sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt.

## Cysylltiadau ac Atgyfeiriadau



Rydym wedi gweld gostyngiad yn y gydymffurfiaeth ag amserlenni ar gyfer cynadleddau achos amddiffyn plant cychwynnol, gyda 79.0% o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol yn cael eu cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth strategaeth yn ystod y flwyddyn (o gymharu ag 86.2% y llynedd). Ni chynhaliwyd chwe chynhadledd (11 teulu) o fewn yr amserlenni, a oedd yn bennaf oherwydd y galw ar y gwasanaeth a/neu nid oedd unrhyw gadeirydd arall ar gael. Gobeithiwn weld gwelliannau yn hyn o beth yn y dyfodol gan fod hyfforddiant mewn cadeirio cyfarfodydd Signs of Safety wedi cael ei weithredu er mwyn i'r Swyddog Adolygu Annibynnol allu cefnogi'r prif Gadeirydd.


Rhoddwyd 126 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn. Ailgofrestrwyd 6.3% (8 allan o'r 126) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi methu o drwch blewyn ein targed o 6.0% a chyfartaledd Cymru, sef 5.4%.

Mae perfformiad blaenorol wedi bod yn eithaf eithafol gyda chanlyniad diwedd blwyddyn 2016/17 yn 10.4% a 2017/18 yn 0.7%. Roedd y rhesymau dros ailgofrestradau yn cynnwys dirywiad mewn iechyd meddwl rhieni a chamddefnyddio sylweddau. Yr amser cyfartalog a dreuliwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod 2018/19 oedd 262.4 o ddiwrnodau. Mae'r mesur hwn yn edrych ar y plant hynny a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, sydd wedi codi o 108 (ar ddiwedd blwyddyn 2017/18) i 145 (ar ddiwedd blwyddyn 2018/19), sydd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae hyn yn cael effaith ar nifer y diwrnodau cofrestru gan fod 35 o blant ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y garfan o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Cwblhawyd **87.2% o asesiadau** am Ofal a Chymorth o fewn yr amserlenni statudol (o gymharu ag 89.7% yn ystod 2017/18). Er ein bod wedi gweld gwelliant o gymharu â thri chwarter cyntaf y flwyddyn, yn anffodus rydym wedi methu ein targed o 90% ac wedi methu cyfartaledd Cymru o 88.0% o drwch blewyn. Mae materion staffio yn un o'r timau asesu yn ystod y flwyddyn wedi dylanwadu ar y nifer a gwblhawyd o fewn yr amserlenni, sydd bellach wedi'i ddatrys.

**PAM 28**

**% yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol**




Cynhaliwyd 86 o adolygiadau o ofalwyr maeth prif ffrwd o fewn yr amserlen (95 allan o 100), a 77% o berthnasau (10 allan o 13). Yn anffodus ni wnaethom gyrraedd ein targed o 100%. Mae gan reolwyr systemau cadarn ar waith i fonitro cynnydd.

**Perfformiad Iechyd a Llesiant**

Yn dilyn buddsoddi gwerth miliwn o bunnoedd i wella darpariaeth Iechyd a Ffitrwydd y sir, gan greu mwy o le a chyflwyno cyfarpar ffitrwydd newydd o'r radd flaenaf, mae'r amgylcheddau a'r ymarferion ar eu newydd wedd wedi cael derbyniad da iawn gan gwsmeriaid newydd a chwsmeriaid presennol. Mae hyn wedi arwain at welliant dramatig mewn cyfraddau ymaelodi â'r gampfa a'i defnyddio. Bellach mae ein gwasanaeth yn ceisio gwella cysylltedd â chyfryngau cymdeithasol ac apiau ffitrwydd, gan alluogi pobl i bersonoli lleoliadau a dewis o blith ystod enfawr o sianeli/ffrydiau teledu/radio, sy'n caniatáu iddynt ymarfer yn 'rithwir' mewn amrywiaeth o leoliadau deniadol ar draws y byd a chymaint mwy.

**Ffigurau Casglu Aelodaeth Misol**



Mae'r twf mwyaf wedi bod mewn aelodaeth teulu wrth i ni weld plant o 11 oed bellach yn defnyddio campfeydd ac yn mynychu dosbarthiadau.

## Y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

Mae'r cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff yn ceisio lleihau'r nifer sydd mewn perygl o ddatblygu clefydau coronaidd y galon, cynyddu gweithgarwch corfforol, a gwella iechyd meddwl a llesiant. Mae gan yr Awdurdod Lleol ffordd arloesol ac effeithiol o ymdrin ag achosion a gaiff eu hatgyfeirio gan Feddygon Teulu at ymyrraeth gweithgarwch corfforol (yn seiliedig ar swyddogaeth yn hytrach na'u cyflwr), gan wella sgiliau staff ffitrwydd hamdden prif ffrwd er mwyn cadw'r atgyfeiriadau hyn yn weithredol trwy gydol hyd oes y cynllun. Cawsom 1446 o atgyfeiriadau yn 2018/19, cymerodd 58.7% o'r rhain ran yn y cynllun (cynydd o 4.9% o gymharu â 2017/18) a chwblhaodd 55.1% ohonynt y rhaglen 16 wythnos o hyd (cynydd o 9.5% o gymharu â 2017/18).

Rydym wedi cynyddu a datblygu ymhellach ein darpariaeth gymunedol o fewn y cynllun drwy ychwanegu lleoliad cymunedol ychwanegol i dargedu ein poblogaethau gwledig yn well, sydd wedi cynyddu cyfranogiad i fwy na 7500 o bresenoldebau ar gyfer y flwyddyn gan gwmpasu mwy na'i gostau ei hun drwy gynyddu aelodaeth o'r gampfa.

Nododd y cyfranogwyr welliannau iechyd ar ôl cwblhau 16 wythnos o'r rhaglen. Mesurwyd gwelliant o 13.3% mewn iechyd drwy'r Raddfa Analog Weledol EQ5, sy'n gofyn i atgyfeiriadau raddio eu hiechyd ar y diwrnod penodol hwnnw (rydym wedyn yn cymharu mesurau cyn ac ar ôl cwblhau'r rhaglen 16 wythnos). Mae atal codymau yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r cynllun ond er gwaethaf gostyngiad bach mewn atgyfeiriadau o gymharu â 2017/18, mae'r gyfradd gwblhau 16 wythnos wedi cynyddu bron 5% (o 73.47% i 78%).

### Astudiaeth Achos Atgyfeirio

Cafodd Mrs N ei chyfeirio drwy'r llwybr Ffisiotherapi wedi iddi ddioddef strôc, er mwyn cael ymarferion cryfder a chydbwysedd i wella ei hyder. Roedd Mrs N wedi baglu a llithro sawl gwaith oherwydd bod ganddi wendid ar ei hochr chwith a bod ei golwg yn wael. Defnyddiai Mrs N gymorth cerdded i ddod i'r sesiynau ac i symud o un ymarfer i'r llall.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen 16 wythnos cofnododd Mrs N welliannau yn ei symudedd ac wrth wneud gweithgareddau dyddiol arferol.

Dangosodd welliant o 43% yng nghryfder ei choesau a gwelliant o 25% mewn gallu echddygol a chydbwysedd dynamig. Mae symudedd Mrs N wedi cynyddu i'r pwynt ble nad oedd angen iddi ddefnyddio ei chymorth cerdded yn ystod y sesiynau mwyach.

#### Dyfyniad gan Mrs N

*“Rwyf wedi dod yn fwy hyderus ac nid oeddwn yn sylweddoli cymaint y gallwn ei wneud. Rwyf yn teimlo'n hapusach. Rwyf yn dod i mewn gyda fy ffon ac yn anghofio amdani nawr”*

### 3 Beth y mae eraill yn ei ddweud wrthym am ein gwasanaethau / Sut y mae pobl yn llunio ein gwasanaethau

#### Swyddfa Archwilio Cymru Mai 2017

Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau - mae'n tynnu sylw at y ffaith bod gan y Cyngor brosesau sydd wedi eu hen sefydlu ar waith i geisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr a dinasyddion, ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

*"Mae'r Cyngor o'r farn bod ymgysylltu ac ymgynghori yn broses barhaus ac mae'n dal i ymgynghori â thenantiaid a'u cynnwys o ran y ffordd y gellid cynnal y safon. Yn yr un modd, yn sgil y penderfyniad i ailstrwythuro ymarfer gwaith cymdeithasol a oedd yn anelu at sicrhau bod y teulu wrth wraidd y gwasanaeth, mae gweithgarwch ymgysylltu parhaus, trwyadl yn rhan elfennol o'r broses o newid gwasanaethau, sy'n darparu gwybodaeth a barn hanfodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd er mwyn helpu i lywio fformatau'r gwasanaethau sy'n newid yn uniongyrchol yn y dyfodol."*

Swyddfa Archwilio Cymru

Caiff cwynion bellach eu cydlynu gan y tîm perfformiad ac mae systemau cadarn ar waith i gael data cadarn mewn perthynas â chwynion. Defnyddir canmoliaeth fel adborth i wella perfformiad. Roedd rhai o'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

*Annwyl Mark, teimlwn reidrwydd i gysylltu â chi i'ch canmol am eich proffesiynoldeb a'ch effeithlonrwydd wrth ddelio â'm cwyn o 21 Rhagfyr 2018 ymlaen. Fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer eich adran, ni allwn fod wedi gofyn am well. Roedd eich llythrau'n brydlon, ac roeddech bob amser yn gwrtais ac yn broffesiynol ar y ffôn. Diolch yn fawr iawn i chi am wneud sefyllfa anodd gymaint yn haws.*

Rhiant merch ifanc a ddaeth i'w hadolygiad person-ganolog yn ddiweddar:

*"Yn dilyn adolygiad L yn ddiweddar, hoffwn ddweud bod y ffordd y cafodd y cyfarfod ei gynnal wedi creu argraff arnaf. Roedd yn drefnus ac wedi'i gyflwyno a'i gynnal yn broffesiynol gan Linda, sy'n hollol wahanol i fel yr oedd mewn blynyddoedd eraill. Rwyf wedi bod i nifer o'r adolygiadau hyn dros y blynyddoedd diwethaf, ond roedd hwn yn wahanol."*

*"Diolch o galon i'ch tîm gwych a ddaeth i weld fy ngŵr dros yr wythnos ddiwethaf gan ddangos gofal mawr a thosturi, roeddent yn wych am wneud i'm gŵr deimlo'n gartrefol, gan sgwrsio ag ef wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau gydag ef, ac roedd hynny'n gwneud iddo ymlacio'n llwyr. Sut le fyddai'r byd heb eich gofalwyr?"*

Neges diolch i'r Tîm Ymateb Cyflym

*"Rydych chi'n angel gwarcheidiol anhygoel. Diolch o galon i chi am eich holl waith caled yn trefnu'r cynlluniau gofal ar gyfer Mam. Nid wyf erioed wedi gweld y fath ofal dif-fuant ac ymroddedig, nac ymateb mor brydlon chwaith"*

Neges o ddiolch i Weithiwr Cymdeithasol

*"Diolch o galon i chi Mark, rydych chi wedi bod yn gymaint o help. Mae mor braf gallu siarad â rhywun sy'n deall y sefyllfa"*

Neges o ddiolch i'r tîm cwynion

Aeth person a gafodd brofiad o fyw gydag afiechyd meddwl ati i rannu ei meddyliau am ei gwellhad a'r gefnogaeth a gafodd ar ffurf cerdd:

*'This poem is especially for you  
A bit about my life and how I've pulled  
through  
The darkness, the light, the battles I've won,  
Now I'm moving forward, the best is yet to  
come  
I've been through the worst, when I wanted to  
give in  
The voices were unbelievable, I thought they  
would-win  
I looked around and I saw no light  
But I said to myself, I need to win this fight!  
So here I am now, I'm well on my way  
I'm getting better and better every day!  
The struggles are stiff there but I can fight  
them away  
I am stronger now, no matter what they say  
I can't wait for this chapter and the adventures  
it holds  
Working with you, my future unfolds  
So thank you Marie for all that you do  
And letting me share my journey with you'*  
SE

*"Gair o ddiolch i chi am eich holl waith caled  
a'ch ymyriad... Diolch am eich dyfalbarhad -  
dim ond eisiau rhoi gwybod i chi ein bod wedi  
dod o fan pell"*

Neges o ddiolch i Dîm Asesu Gofal Plant

*"Diolch o galon am dy help a'th gefnogaeth  
drwy gyfnod hunllefus i ni"*

Neges o ddiolch i Weithiwr Cymdeithasol

*"Mae hi wedi creu argraff gyson arna i  
gyda'i phroffesiynoldeb, ei thosturi, ei de-  
alltwriaeth a'i ffocws. Mae'n ddigon posibl  
bod ei safonau rhagorol yn cynrychioli'r  
adran gyfan. Os felly mae llawer i ymfalchïo  
ynddo"*

Neges o ddiolch i Weithiwr Cymdeithasol

*"Gweithiwr Cymdeithasol #1 Cymru! ...Alla i  
ddim rhoi mewn geiriau cymaint ydw i'n  
gwerthfawrogi dy gefnogaeth... Rwy'ti  
wedi bod yno bob cam o'r ffordd, rwy'ti'n  
un mewn miliwn."*

Cerdyn diolch gan berson oedd yn gadael gofal

*"Asesiadau helaeth a chynhwysfawr.....  
Meddwl agored, gyda budd y plant wrth  
wraidd pob penderfyniad"*

Sylwadau a wnaed gan y Barnwr yn ystod achos  
cymhleth

*"Rydych chi a'ch tîm ar brydiau wedi mynd  
yr ail filltir i'n helpu ni. Rydyn ni wir yn  
gwerthfawrogi'r holl gymorth yr ydyn  
wedi'i gael ac allwn ni ddim diolch digon i  
chi! Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn  
haeddu llawer mwy o ganmoliaeth o ysty-  
ried yr amgylchiadau allanol ar hyn o bryd.  
Diolch o galon i chi"*

Neges o ddiolch i Weithiwr Cymdeithasol



## Dadansoddiad o Ganlyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 4 i 5 mlynedd ar ôl Gorchymyn Gofal Terfynol

Cymerodd y gwasanaethau plant ran mewn adolygiad annibynnol gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cymru ar y canlyniadau i blant 4-5 mlynedd ar ôl i Sir Gaerfyrddin sicrhau gorchymyn gofal. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Mai 2018.

### Y prif gasgliadau

- Yn gyffredinol, ceir **canlyniadau da** yn Sir Gaerfyrddin.
- Pan oedd yna amhariadau yn digwydd i leoliadau yn Sir Gaerfyrddin, roeddem yn fwy rhagweithiol o lawer o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill. O ganlyniad, roedd y canlyniad terfynol **yn gadarnhaol** hyd yn oed pan symudwyd y plentyn nifer o weithiau.
- Mabwysiadwyd **60%** o'n plant a ddaeth i ofal ar yr adeg honno. Mae hyn o gymharu â'r **32%** a fabwysiadwyd ar draws Cymru. Mae hyn eto yn nifer uchel ac yn nodweddiadol gadarnhaol.
- Roedd gennym rai lleoliadau maethu da iawn a oedd yn gofalu am y plant nes eu bod yn cyrraedd eu harddegau.
- Roedd yna hefyd enghreifftiau da o blant yn elwa ar gymorth therapiwtig.
- Gwaith arbennig gan y Gweithiwr Cymdeithasol therapiwtig a ddisgrifir fel rôl da iawn.
- Tystiolaeth o waith **Cofnodi Profiadau Bywyd** da iawn a rhai canlyniadau rhagorol i'r plant.
- Ar ddiwedd y pum mlynedd a astudiwyd fel rhan o'r ymchwil, roedd **16** allan o **17** o'n plant yn **sefydlog ac yn hapus ac maent wedi meithrin perthnasoedd da**. Roedd pob un ohonynt mewn addysg neu hyfforddiant; 13 yn cyflawni'n dda, 3 yn cyflawni'n arbennig o dda a dim ond un plentyn oedd yn cael anawsterau.
- Roedd plant yn Sir Gaerfyrddin yn cael canlyniadau gwell o lawer oherwydd y gwaith cynllunio a'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn ar yr adeg pan fethodd y lleoliad ac ar ôl hynny wrth ymgartrefu mewn lleoliad newydd.
- Ceir tystiolaeth glir o berfformiad da iawn yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) eisoes wedi cynnig gweithdai i Awdurdodau eraill er mwyn canolbwyntio ar eu diffygion, ond roedd o'r farn nad oedd angen un yn Sir Gaerfyrddin.


## 2018/19: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru o 'Dechrau'n Dda' – helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw'

*"Canfu ein harchwiliad fod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r 'cam' ac wedi ystyried y pum ffordd o weithio mewn modd effeithiol wrth gymryd camau i'w gyflawni".*


(Swyddfa Archwilio Cymru - cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019)

## Digwyddiad Dathlu Llwyddiant:

Cynhelir ymgynghoriad ac adborth gyda phobl ifanc fel rhan o'r digwyddiad blynyddol i **ddathlu llwyddiant ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal**. Yn nigwyddiad 2018 ym mis Tachwedd (\* gweler yr adran 'Gwobrau' am ragor o fanylion am y digwyddiad) rhoddodd y digwyddiad gyfle i bobl ifanc fynegi eu barn ynglŷn â gwasanaethau gadael gofal:



... Ac i ddisgrifio gwasanaethau Gadael Gofal mewn un neu ddau o eiriau:



Cael fflat

Rhagorol a gofalgar

Defnyddiol a chefnogol

eithaf da

profiad

Hynod ddefnyddiol

Llawer o gyfrifoldeb!

Gwych

Da a defnyddiol

rhywun i gael sgwrs a helpu gyda'm haddysg

Supportive & Professional

Mae gadael gofal yn frawychus

## Siarad Â'r Pwyllgor Craffu - Addysg A Gwasanaethau Plant

Yn ddiweddar bu grŵp o bobl ifanc, a oedd mewn gofal, yn ddewr iawn drwy fynd i gyfarfod gydag Aelodau Etholedig fel rhan o'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Plant.



Diolch i Tyler, Joshua, Shannon, Jo-Anne a Rhian Thomas am fynegi eu barn yn glir am eu profiadau fel pobl ifanc sydd wedi gadael gofal. Bydd eich sylwadau'n cael eu hystyried wrth i ni adnewyddu ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol.

Cafodd y grŵp gyfle i rannu eu profiad o gymryd rhan yn Her Cymru. Mae Wales' Tall Ship ac Adventure Wales yn darparu cyfnodau antur preswyl a dydd i bobl ifanc i'w helpu i ehangu eu gorwelion gan eu galluogi i gyflawni eu potensial.

---

## Llais Pobl Ifanc

Ceir grŵp ymgynghori gweithredol ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal o'r enw ECHOES a drefnir ar y cyd gan Voices from Care (elusen genedlaethol) a'r Gwasanaethau Plant. Maent yn cyfarfod yn fisol ac maent yn brysur yn datblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2019. Maent wedi bod yn rhan o grŵp ymgynghori Llywodraeth Cymru yn y Senedd ac ymgynghoriad yr NSPCC ar lesiant. Mae'r grŵp Echoes yn cyfrannu'n rheolaidd i ddigwyddiadau cyfranogi lleol a chenedlaethol.

Y llynedd, dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod am gyfathrebu â ni mewn ffordd wahanol. Fel rhan o'r rhaglen trawsnewid TG, mae person sy'n gadael gofal wedi datblygu system gyfathrebu ddiogel a fydd yn gweithredu ar ffonau plant a phobl ifanc. Dylai hon gael ei lansio yn ddiweddarach ym mis Ebrill 2019.

Mae 4 o'n pobl ifanc wedi cwblhau cwrs arweinyddiaeth gyda Her Cymru. Mae'r her yn ymwneud â bod yn rhan o griw sy'n hwylio allan o Fae Caerdydd. Maent yn cynllunio taith dros nos eleni.

Mae grŵp o bobl ifanc yn gwirfoddoli yn yr Ardd Fotaneg ac yn mynd ati i blannu a chlirio ardaloedd. Maent wedi ennill gwobrau gwirfoddoli cymunedol.

Mae pobl ifanc yn dweud wrthym eu bod yn hapus yn gyffredinol ag ansawdd y gofal a'r cymorth a gânt gan weithwyr cymdeithasol, athrawon a gofalwyr maeth. Lle tynnwyd sylw at welliannau, dywedodd pobl ifanc:

- Yr hoffent gael mwy o ddewisiadau tai.
- Byddent yn hoffi cael mwy o gymorth llesiant yn yr ysgol, ond heb dynnu sylw atynt fel rhai sy'n wahanol.
- Hoffent gadw mewn cysylltiad â'u gofalwyr maeth ar ôl 18.
- Byddent yn hoffi cyfathrebu â staff gan ddefnyddio ffonau symudol.
- Hoffent gael mwy o gyfleoedd lleoliad gwaith.
- Hoffent gael mwy o gymorth i ddeall pam eu bod mewn gofal.
- Hoffent gael mwy o wybodaeth am ba wasanaethau sydd ar gael i'w helpu.
- Hoffent gael mwy o help i'w paratoi ar gyfer bod yn rhiant.
- Byddent yn hoffi i'w hadolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal fod yn llai ffurfiol.

Mewn ymateb i'r uchod, mae'r adran eisoes wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc ar y canlynol:

- Mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi parhau i weithio ar yr 'ap'/system cyfathrebu diogel newydd;
- Mae Arweinydd Tai wedi'i benodi ar gyfer pobl 16-25 oed ac mae'n gweithio ar lwybr tai;
- Penodwyd swydd ar y cyd rhwng Gwasanaethau Plant a Thai
- Mae Echoes wedi cyfarfod â swyddogion perthnasol ac wedi cynllunio newidiadau i adolygiadau Plant

- sy'n Derbyn Gofal er mwyn iddynt ganolbwyntio mwy ar y plentyn.
- Mae gwaith taith bywyd/creu ffilmiau wedi'i wneud gyda'n Hadran Faethu
- Cychwynnodd tîm newydd 'TAF mewn ysgolion' o 1 Ebrill
- Mae nifer cynyddol o gyfleoedd a hyfforddiant lleoliadau gwaith wedi'u trefnu, gan gynnwys gwirfoddoli yn yr Ardd Fotaneg, glanhau traethau, teithiau Her Cymru a chymwysterau arweinyddiaeth, hyfforddiant meddwlgarwch.

## Digwyddiad Meibion a Merched (gofalwyr maeth) Hydref 2018

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori llwyddiannus gyda meibion a merched gofalwyr maeth ar ddydd Sadwrn 6 Hydref yn y Ganolfan Sgïo ym Mharc Gwledig Pen-bre. Trefnwyd y digwyddiad gan y Rhwydwaith Maethu er mwyn i'r plant gael cyfle i gyfrannu at y cylchgrawn THRIVE. Yn dilyn yr ymgynghoriad cafodd y plant ginio cyn cael cyfle i fynd i sgïo a reidio tobogan.



## Gwobrau a Chydnabyddiaeth:

### Gwobr Cyfraniad Eithriadol

**Dyfarwyd Gwobr Cyfraniad Eithriadol y Rhwydwaith Maethu i Ellie (18) a Maisy (17) o Sir Gaerfyrddin gan Sons and Daughters Award, fel rhan o Wobrau Rhagoriaeth Maethu blynyddol yr elusen. Ar 24 Hydref daeth Ellie a Maisy, ynghyd â phedwar o bobl ifanc eraill, i gasglu eu tlysau yng Ngwobrau Rhagoriaeth Maethu blynyddol y Rhwydwaith Maethu yn Llundain.**

Enwebwyd Ellie a Maisy ar gyfer y wobr o ganlyniad i'r gefnogaeth ardderchog a roddwyd ganddynt i lawer o blant a phobl ifanc dros y blynyddoedd, gan chwarae rhan weithredol mewn maethu ers i'w rhieni gael eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth saith mlynedd yn ôl.

Meddai Ellie: *'Mae maethu wedi caniatáu i mi gwrdd â chymaint o blant anhygoel. Rwyf yn ddiolchgar iawn am yr atgofion yr wyf wedi gallu eu gwneud drwy faethu.'*

Dywedodd Kevin Williams, prif weithredwr y Rhwydwaith Maethu:

*"Mae'r chwe pherson ifanc rhagorol hyn yn enghreifftiau o'r empathi a'r ymrwymiad i faethu sydd gan lawer o feibion a merched gofalwyr maeth, yn ogystal â'r effaith gadarnhaol y gall maethu ei chael ar y meibion a'r merched hynny. Mae'n amhosibl gorbwysleisio'r rôl y mae plant gofalwyr maeth yn ei chwarae mewn teulu maethu, wrth groesawu plant wedi'u maethu i'w cartrefi a sicrhau lleoliadau maethu llwyddiannus. Mae llawer o bobl yn dweud mai'r effaith bosibl ar eu plant biolegol yw un o'r prif rwystrau i ddod yn ofalwr maeth. Y realiti yw y gall gweld bywyd o safbwynt rhywun arall fod yn brofiad cyfoethog a gall helpu plentyn i ddsygu a datblygu fel unigolyn". Gan fod angen mwy na 8,000 o deuluoedd maeth eleni i gwrdd ag anghenion y plant sy'n dod i mewn i ofal, mae cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae maethu yn ei chael ar y teulu maethu cyfan yn gwbl hanfodol i recriwtio."*



Dyma Maisie ac Ellie ar y dde, yn derbyn eu gwobr gan yr awdures plant Jacqueline Wilson

## DATHLU LLWYDDIANT PLANT SY'N DERBYN GOFAL A'R RHAI SY'N GADAEI GOFAL

### Gŵyl Ddathlu

Daeth tyrfa dda ynghyd yn XCel Bowl, Caerfyrddin i ddathlu llwyddiant ein **plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal**.

Yng nghwmni Adam Price AC, y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor a'r Cynghorydd Glynog Davies, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant, gwobrwyd nifer o blant a phobl ifanc am eu llwyddiant academaidd, eu gwaith celf, eu llwyddiannau chwaraeon a'u cyfraniadau gwirfoddol.

Arweiniwyd y digwyddiad yn effeithiol iawn gan berson ifanc a rhoddwyd anerchiad arbennig.



### Canlyniadau Addysgol Gorau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal

Trwy ymroddiad yr athrawon, y gofawyr maeth, Tîm y Cam Nesaf, y gwasanaeth addysg a lles emosiynol sydd wedi cynorthwyo ein pobl ifanc â phrofiad o ofal i sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau yng Nghymru, drwy eu magwraeth, eu gofal a'u cefnogaeth ddiflino rydym wedi helpu i sicrhau rhai o'r canlyniadau gorau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.



Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cynnal adolygiad thematig o ddiogelu ac wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ar y systemau a'r strwythurau newydd sydd ar waith i wella perfformiad ac yn benodol yr amserlenni.

Mae'r swyddogaeth Graffu wedi nodi cynnydd yn ystod 2018 mewn perthynas â thrawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl, cefnogi gofawyr a chynnydd mewn perthynas â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS).

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael adroddiadau ar y cynnydd mewn llety a chomisiynu ar gyfer unigolion ag anabledd dysgu.

Gwnaeth gweithiwr cymdeithasol sylwadau yn ddiweddar ar yr adolygiadau person-ganolog a gynhaliwyd yn ein gwasanaethau dydd

*"Roeddwn am ddweud fy mod yn credu bod y ddau adolygiad hyn yn gadarnhaol iawn ac roedd yn amlwg bod Tanya wedi rhoi llawer o waith meddwl a pharatoi i mewn i'r adolygiadau person-ganolog ar gyfer pob un o'r unigolion hyn. Rhoddodd Tanya groeso i bawb ac roedd ei phersonoliaeth hyfryd a chadarnhaol yn helpu pawb i deimlo'n gartrefol. Roedd yn bleser bod yn rhan o'r cyfarfodydd hyn. Roedd hoffter gwirioneddol Tanya o'r rheiny oedd yn ei gofal a'i hymroddiad tuag atynt yn galonogol iawn i mi ac rwyf yn gwybod bod y teuluoedd hefyd yn teimlo'n gadarnhaol iawn ynglŷn â fformat newydd yr adolygiadau. Yn ogystal, mae wedi gwneud i mi fyfyrio ynghylch y ffordd yr wyf wedi bod yn cynnal adolygiadau dros y blynyddoedd. Os gall Tanya barhau â'r hyn y mae hi'n ei wneud, credaf y bydd y gwasanaeth cyfan ar ei ennill, gan gynnwys unigolion, teuluoedd a staff. Da iawn Tanya"*

## Gofalwyr

Cyflwynwyd nifer o fentrau mewn perthynas â gofalwyr:

- Nodi eiriolwyr dros ofalwyr ym mhob tîm gwaith cymdeithasol
- Sefydlu swydd gwybodaeth ac asesu'r gofalwr
- Cydweithio â'r Rhwydwaith Gofalwyr Iechyd Meddwl i ddatblygu taflen a phrotocol rhannu gwybodaeth
- Roedd Diwrnod Hawliau Gofalwyr a Ffair Crefft Coleshill yn ddiwyddiad llwyddiannus iawn ar ddiwedd 2018. Cafodd gofalwyr gyfle i drafod y cymorth sydd ar gael i'r bobl sy'n gweithio'n ddiflino i ofalu am eu ffrindiau a'u teulu heb dâl a chael rhagor o wybodaeth. Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn yng Nghanolfan Coleshill. [www.coleshillwales.uk/beth-sydd-ymlaen](http://www.coleshillwales.uk/beth-sydd-ymlaen)
- Cydweithio â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr i gynllunio cynhadledd yn ystod yr wythnos gofalwyr (Mehafin 2019)

Mae tair canolfan ddydd wedi derbyn Gwobr Efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr; Mae staff yn y canolfannau, ynghyd â'r holl wasanaethau perthnasol yn yr ardal, wedi bod yn cymryd rhan yn y cynllun, sydd â'r nod o helpu'r sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol, y trydydd sector a sefydliadau eraill i ganolbwyntio ar eu hymwybyddiaeth o ofalwyr a'i gwella, ac ar y cymorth y maent yn ei roi i ofalwyr.



## Ymgysylltu

Fel rhan o'r gwaith o Drawsnewid Iechyd Meddwl a arweinir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda, mae'r swyddogion wedi cyfrannu at nifer o ddiwyddiadau ymgysylltu er mwyn ymgynghori ynghylch model gwasanaeth newydd. Bu'r adborth a gafwyd gan y rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr yn elfen hanfodol o'r rhaglen hon, sydd bellach wedi symud i'r cam gweithredu.

Mae'r swyddogion yn mynd i fforymau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn rheolaidd er mwyn canfod barn y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gyda'r nod o wella gwasanaethau'n barhaus. Er enghraifft, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda rhieni sy'n ofalwyr, Mencap a Pobl yn Gyntaf er mwyn canfod eu barn ar ailfodelu'r gwasanaethau dydd.

Mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wedi cyfrannu at adolygiad TIC o gomisiynu preswyl ac wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod y broses yn dod yn fwy person-ganolog.

Mae cydgynhyrchu wedi bod yn elfen hollbwysig o'r adolygiad o anabledd. Mae digwyddiadau gwranddo gyda phobl ifanc a'u teuluoedd mewn perthynas â phontio wedi bod yn nodwedd reolaidd sydd wedi llywio datblygiad model trwy oedran. Mae ymgynghori â chydweithwyr ym maes addysg, iechyd, y trydydd sector, gwasanaethau plant ac oedolion hefyd wedi bod yn elfen hollbwysig o'r prosiect hwn.

## Gwobrau Allanol

Roedd Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin yn bartner gweithredol wrth gyfrannu at y Rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl, a arweiniodd at fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn derbyn gwobr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol am yr ymdrech gydweithredol a hefyd yn derbyn gwobr gan y Gwobrau Seiciatrig Cenedlaethol mewn seremoni yn Llundain fis Tachwedd 2018.



Whitland Fire Brigade support people with dementia and their carers

*Yng Ngwobrau TIC 2018 a gynhaliwyd yn Theatr y Ffwrnes, rhoddwyd cydnabyddiaeth i gyflawniad y Gwasanaethau Anableddau Dysgu o ran y newidiadau a wnaed dros y 18 mis diwethaf. Y gwasanaeth Dydd ar gyfer Anableddau Dysgu oedd un o 5 gwasanaeth a gafodd gydnabyddiaeth am ddarparu gwasanaeth gwell ac arloesi.*

Un o'n mentrau yw creu Sir Gaerfyrddin sy'n deall dementia. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Heddlu Dyfed-Powys ynghyd â meddygfeydd teulu lleol, Cyngorwyr Tref, busnesau lleol, grwpiau gwirfoddol ac aelodau'r gymuned wedi gweithio gyda'i gilydd er mwyn cefnogi menter Ffrindiau Dementia'r Gymdeithas Alzheimer. Nod y rhaglen yw darparu sesiynau ymwybyddiaeth o ddementia fel y gall busnesau lleol, sefydliadau, gweithwyr y sector cyhoeddus a'r cyhoedd fod yn ffrindiau dementia ac addo cymryd camau er mwyn i bobl sy'n byw gyda Dementia deimlo eu bod yn gallu cael mynediad i'w cymunedau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn Llanelli, Pontyberem, Rhydaman, Llanymddyfri, Talacharn, Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf a'r cyffiniau, Llandeilo a Thref Caerfyrddin.

---

## Archwiliad Mewnol Mawrth 2018 - Proses Atgyfeirio Diogelu Oedolion

'Cadarnhaodd yr adolygiad archwilio fod gweithdrefnau da wedi'u sefydlu, o'r sampl o achosion a brofwyd, a bod llawer o reolaethau allweddol disgwylidig wedi'u sefydlu ac yn gweithredu i safon briodol. Mae proses ymholiadau diogelu newydd wedi'i datblygu dros y 12 mis diwethaf sydd, o ganlyniadau'r profion archwilio, yn gweithio'n dda iawn.

Mae'r penderfyniad i osod y Swyddog Dyletswydd yn Llesiant Delta wedi gweithio'n dda. Yn ystod yr archwiliad roedd yn amlwg bod yna ddialog rheolaidd rhwng y Swyddog Dyletswydd a gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol/Asiantau Llinell Gofal eraill sy'n cynorthwyo'r Swyddog Dyletswydd yn y rôl ymholi/penderfynu.

Roedd pob un o'r achosion a adolygwyd yn cynnwys digon o fanylion am CareFirst i gadarnhau'r penderfyniadau a wnaed.

Cafodd yr holl samplau ond un eu pennu o fewn y 7 diwrnod a gymeradwywyd. Yn achos yr un hwnnw y rheswm oedd bod angen cyfieithydd. Roedd hyn wedi'i gofnodi'n briodol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## 4 Hyrwyddo a gwella llesiant y rheiny yr ydym yn eu helpu

Mae'r Is-adran Iechyd Meddwl, Anabledd Dysgu a Diogelu yn ymdrechu i ddarparu dull sy'n cynorthwyo ac yn galluogi pobl i barhau i reoli eu bywydau ac i gael yr atebion sy'n bodloni eu dyheadau a'u dymuniadau orau. Rydym eisiau canolbwyntio ar gryfderau a galluoedd pobl, a'u helpu drwy ddefnyddio rhwydweithiau teulu, ffrindiau a chymuned ochr yn ochr â gwasanaethau. Mae'r newid hwn mewn diwylliant wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n rhoi pwyslais ar fodolau gofal a chymorth cymunedol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol inni ganolbwyntio ar wasanaethau hygyrch, gwybodaeth, cyngor a chymorth, atal a manteisio i'r eithaf ar botensial y gymuned fel adnodd. Mae cynllunio person-ganolog wrth wraidd y ddeddfwriaeth hon ac mae ymgysylltu â'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn hanfodol. Yn 2019 dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru y "gall pobl heb alluedd meddyliol fod yn hyderus bod asesiadau a phenderfyniadau yn cael eu gwneud er budd pennaf yr unigolyn."

Ers 2014, rydym wedi bod wrthi'n rhoi'r Ddeddf ar waith, gan godi ei phroffil ymysg staff a phartneriaid. Mae wedi rhoi'r cyfle i ni gydweithio'n helaeth â chyd-Aelodau yn y sectorau statudol a gwirfoddol gyda'r nod cyffredin o aildrefnu a moderneiddio gwasanaethau er mwyn ymateb i'r gofynion newydd, fel ein bod yn hybu llesiant ac annibyniaeth sy'n gallu gwella canlyniadau i'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn sylweddol. Mae hyn wedi rhoi amser heriol i ni, yn erbyn hinsawdd o galedi ariannol a galw cynyddol; fodd bynnag, bu'n angenrheidiol sefydlu sefyllfa gynaliadwy yn y dyfodol ar gyfer ein gwasanaethau.

Rydym wedi cyflwyno dull rheoli prosiect ar gyfer rheoli perfformiad yn yr is-adran, gan gydgyssylltu'r gofynion gwybodaeth er mwyn darparu data cadarn. Mae'n ofynnol i reolwyr ddarparu tystiolaeth gadarn yn ymwneud â'u prosiectau unigol.

Mae'r dull hwn yn ysgogi gwelliant ac yn y pen draw bydd yn arwain at well canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r perfformiad cyffredinol mewn perthynas â Dangosyddion perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf yn gadarnhaol, ac rwyf yn falch o adrodd am welliant sylweddol ym mhrydlondeb ymchwiliadau diogelu, lleihad sylweddol yn ôl-groniad y ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS) a pherfformiad llawer gwell mewn perthynas ag adolygiadau.

Cynrychiolir yr is-adran ar sawl prosiect a rhaglen sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth Ranbarthol, byrddau integredig a rhaglenni trawsnewid a arweinir gan iechyd. Mae ein perthynas â Chyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys ac â phartneriaid Trydydd Sector wedi bod yn gadarnhaol iawn ac rydym yn cydweithio ar nifer o brosiectau gan gynnwys datblygu gwasanaeth argyfwng yn Llanelli. Mae'r prosiectau ar y cyd canlynol hefyd wedi'u hen sefydlu yn dilyn ceisiadau llwyddiannus i'r Gronfa Gofal Canolraddol:

- Swydd Gwybodaeth ac Asesu Gofalwyr
- Tîm sy'n canolbwyntio ar ymyriadau ymddygiadol ar gyfer yr unigolion hynny ag ymddygiad heriol
- Darparu cyfarpar synhwyraidd mewn sawl canolfan ddydd
- Ceisiadau cyfalaf i'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) i ddatblygu prosiectau byw â chymorth

### Adolygiadau Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) yn ystod 2018

Mewn ymateb i ofynion Deddf 2014, ac fel rhan o'r prosiect Llety ac Effeithlonrwydd, rydym wedi sefydlu strwythur newydd i ganolbwyntio ar leihau nifer y lleoliadau preswyl, drwy ddatblygu'r farchnad i gynyddu'r ystod o wahanol brosiectau byw â chymorth. Rydym yn cydweithio â chydweithwyr yn y gwasanaethau tai a darparwyr tai annibynnol i ddatblygu'r prosiectau hyn, sy'n cynnwys defnyddio cyllid cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig (ICF). Bydd y prosiectau hyn yn cynnwys mentrau lleol a rhanbarthol i greu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, oedolion ag anabledd dysgu a phlant.



Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r tîm adolygu (Llety ac Effeithlonrwydd) yn gweithio gyda darparwyr i graffu ar becynnau gofal unigol a'u teilwra. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda darparwyr i ddadgofrestru'r unigolion hynny o leoliadau preswyl, gyda'r bwriad o'u trosglwyddo i fyw â chymorth a fydd yn eu hannog i fod yn annibynnol. Mae'r prosiect hwn yn werth ei amlygu, oherwydd nid yn unig y bydd dadgofrestru o ofal preswyl i fyw â chymorth yn rhoi i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny lawer o fanteision megis tenantiaethau sicr, mwy o incwm gwario a mwy o gyfleoedd, ond bydd hefyd yn darparu arbedion sylweddol i sefyllfa'r gyllideb.

Caiff gwaith tebyg ei wneud ar y cyd â chydweithwyr yn y gwasanaethau Tai i alluogi unigolion i gael mynediad i ystod ehangach o gyfleoedd am lety, unwaith eto gan leihau'r ddibyniaeth ar leoliadau preswyl, ac ar yr un pryd gwella perfformiad mewn perthynas â thai gwag.

Er enghraifft, mae dau unigolyn ag anabledd dysgu a oedd yn debygol o symud i leoliadau preswyl, bellach yn byw mewn cynllun gofal ychwanegol. Mae saith unigolyn wedi trosglwyddo o brosiect preswyl i drefniant byw â chymorth.

Mae un o'r gweithwyr cymdeithasol sydd ynghlwm wrth y tîm wedi datblygu lefel uchel o wybodaeth a phrofiad o ran cymhwysedd a phrosesau Gofal Iechyd Parhaus. Mae hyn wedi ein galluogi i gael gafael ar gyllid ble mae hyn yn briodol i anghenion iechyd yr unigolyn. Fodd bynnag, mae'r gostyngiadau sylweddol mewn gwariant sydd wedi'u cynllunio yn y maes hwn gan y Bwrdd Iechyd yn parhau i greu deinameg heriol y mae'n rhaid ei reoli.

Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaeth anabledd yn ystod 2017. Mae symleiddio a gwella mynediad i wasanaethau wedi bod yn flaenoriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw cynhaliwyd gweithdai gyda rhanddeiliaid, rhieni, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i ymgynghori ynghylch y cynigion. Sefydlwyd un pwynt cyswllt ar gyfer pob atgyfeiriad ar gyfer unigolion 0-25 oed ac mae'r adborth gan y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaethau anabledd ac eiriolaeth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae model a gynhyrchwyd i ddechrau ar gyfer 0 i 25 oed yn cael ei lunio ar hyn o bryd gyda'r bwriad o sefydlu model gwasanaeth newydd yn ystod 2019. Mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod wrth i ni geisio creu gwasanaeth wedi'i gynllunio gyda phobl yn hytrach nag ar gyfer pobl.

## Byw â Chymorth (Cartrefi Grŵp)

Mae Swyddogion Byw â Chymorth ar gyfradd wedi'i chapio wedi ymgymryd â dadansoddiad manwl o gostau darparwyr ac wedi cymryd rhan mewn cyfres o drafodaethau â'r darparwyr byw â chymorth. Roedd y trafodaethau hyn yn llwyddiannus ac maent hefyd wedi arwain at well perthynas rhwng y darparwr a'r comisiynydd. Mae hyn wedi galluogi swyddogion i gynnal y lefelau ffioedd presennol.

Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau wedi cael adborth ardderchog gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n gwerthfawrogi eu cefnogaeth. Mae'r tîm wedi cytuno ar gynllun busnes i roi cymorth a chyngor arbenigol i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ynghylch effaith camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r tîm hefyd yn gwneud gwaith ymchwil a datblygu yng nghyswllt cyflyrau camddefnyddio sylweddau penodol megis anaf i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol a'r gydberthynas rhwng camddefnyddio sylweddau a chodymau ymhlith pobl hŷn.

Yn ystod yr Wythnos Diogelu, lansiodd y tîm eu dogfen drothwy ranbarthol sy'n nodi pryd a sut yr ydym yn ymyrryd i ddiogelu unigolion. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn allweddol o ran datblygu, gweithredu a hyfforddi staff i ddefnyddio proses ymholi newydd. Fel rhan o'r hyfforddiant, mae staff wedi ymglyfarwyddo â'r canllawiau ar gyfer Ymdrin ag Achosion Unigol. Mae'r system gyfan wedi'i symleiddio ar ôl recriwtio Swyddog Diogelu parhaol yn Swyddfa Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Llanelli. Mae'r swydd hon wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymholiadau a gyfeiriwyd at y Tîm Diogelu, sydd wedi eu galluogi i ganolbwyntio ar achosion mwy cymhleth.

Mae amserlenni ar gyfer ymateb i atgyfeiriadau diogelu wedi gwella'n sylweddol; ymatebir i 96% o atgyfeiriadau o fewn saith diwrnod.

Mae Pennaeth y Gwasanaeth yn gadeirydd ar y grŵp strategol trais domestig rhanbarthol; cafodd y strategaeth ranbarthol ei lansio yn ystod yr wythnos diogelu, ac mae gwaith o gwmpas chwe blaenoriaeth y cynllun cyflawni yn mynd rhagddo.

Penodwyd ymgynghorydd rhanbarthol a reolir gan yr Uwch-reolwr Diogelu ym mis Rhagfyr ac mae'n dechrau cael effaith.

## Cynhwysiant Cymunedol

Yn ystod 2018, symudodd yr Adolygiad Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) o wasanaethau dydd i'r cam gweithredu ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda fel rhan o'r broses o ailfodelu'r ddarpariaeth gwasanaethau dydd. Dyma grynodeb o'r datblygiadau:

Cynhaliwyd adolygiadau person-ganolog am yr ail flwyddyn ac mae hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol i amserlenni gwasanaethau a chynhwysiant cymunedol. Erbyn hyn mae gan bob gwasanaeth amserlenni newydd i adlewyrchu hyn ac mae staff wedi derbyn hyfforddiant newydd mewn meysydd megis ymyriadau sy'n canolbwyntio ar atebion, prosesu synhwyrdd, gosod targedau a chynllunio busnes.

Rydym yn falch iawn o'r prosiectau chwaraeon a hamdden amrywiol yr ydym wedi ymgymryd â hwy dros y flwyddyn ddiwethaf ac sydd wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn gwella iechyd a llesiant o fewn y sir. Gweler isod engreifftiau o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni:

Ffurfiwyd grŵp cerdded newydd yn Llyn Llech Owain, nid yn unig i wella iechyd a llesiant pobl ond hefyd i wella cynhwysiant cymdeithasol. Ysbrydolwyd y grŵp hwn gan grŵp Rhedeg Cymru Llanelli. Cyflawnodd llawer o'r cyfranogwyr enillion personol enfawr.

Ar 16 Medi, ymunodd grŵp rhedeg o Coleshill â miloedd o bobl eraill i wynebu'r gwynt a'r glaw a chymryd rhan yn ras 10k Bae Abertawe. Buont yn paratoi at y ras am fisoedd drwy fynd i ddwy sesiwn redeg bob wythnos, i sicrhau eu bod mor barod â phosibl ar gyfer y diwrnod mawr a roddodd y fath ymdeimlad o foddhad iddynt.

Mae gan Barc Gwledig Pen-bre gynllun llogi beiciau hollgynhwysol newydd, sef 'Beicio i Bawb'. Diolch i'r Gronfa Gofal Integredig, mae yna 38 o feiciau newydd yn amrywio o feiciau hybrid, cludwyr cadair olwyn, beiciau dwbl, beiciau tair olwyn maint oedolion a phlant, beiciau teuluol â phedair sedd a beiciau gorweddol. Mae hyn yn gwella mynediad i bob rhan o'r Parc ar gyfer pobl ag anabledau.

Ddydd Llun 16 Gorffennaf gwelwyd dechrau'r profiad rhagflas ECO "Go Wild" bythgofiadwy. Roedd y sesiynau hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth drwy'r synhwyr. Cafodd ei gynnal bob wythnos am bum wythnos ac roedd yn bleser synhwyrdd i'r cyfranogwyr (o'r tu mewn a'r tu allan i'r gwasanaeth) a oedd ag amrywiaeth o anghenion ac ystod amrywiol o alluoedd. Bob wythnos, roedd gweithgaredd gwahanol yn cael ei gyflwyno gan ddefnyddio amrywiaeth o eitemau o'r amgylchedd awyr agored e.e. dail, blodau, cerrig, brigau, perllysiau a sbeisys.

Daeth tri unigolyn sy'n defnyddio crochenwaith Cam Cyntaf ac sydd, fel grŵp, wedi cynhyrchu Doliau Ladi Gymreig a Merched Cocos, i ddigwyddiad i gyflenwyr ym Mhlas Dinefwr, Llandeilo. Cytunodd y crochendi i gyflenwi'r ffigyrau eiconig hyn i siop Castell Powys a'r gerddi, a gaiff eu rhedeg gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae'r cyflenwad cyntaf wedi'i ddanfôn. Comisiynwyd y grŵp crochenwaith hefyd i greu ffigyrau yn cynrychioli Gorsedd y Beirdd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Bae Caerdydd 2018. Roedd y rhain yn unigryw i siop Bodlon yng Nghaerdydd ac roeddent ar werth ar eu stondin ynghyd â'r ffigyrau Ladi Gymreig.

Cynhaliodd Canolfan Tre Ioan gwrs trwy gyfrwng cerddoriaeth, a oedd â'r nod o ddatblygu hyder, hunan-barch a gwaith tîm. Cafodd y cwrs ei gyflwyno ar un diwrnod yr wythnos dros gyfnod o 5 wythnos.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi ariannu prosiect y Cynllun Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol sydd bellach yn

weithredol o fewn ein gwasanaethau anabledd dysgu yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn cynnig ymyriadau ataliol rhagweithiol i helpu i osgoi achosion lle mae lleoliadau yn methu ac yn arwain at leoliadau arbenigol, y tu allan i'r sir neu mewn ysbyty.

Y Strategaeth Atal, Ymyrraeth Gynnar a Hyrwyddo Byw'n Annibynnol. (PEIPIL). Mae'r strategaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd sefydlu gwasanaethau ymyrraeth gynnar er mwyn cynnal annibyniaeth a helpu pobl i aros mewn cysylltiad â'r gymuned.

Mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu Cymunedau Deall Dementia ledled y sir. Roedd dros 50 o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn rhan o ddigwyddiad Talacharn, Sanclêr a'r cymunedau cyfagos wrth iddynt ddatlu lansiad eu Cymunedau Deall Dementia ar 29 Ionawr 2019. Erbyn hyn, mae'r baton wedi cael ei drosglwyddo i dref Caerfyrddin a Llandeilo wrth iddynt baratoi i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn eu cymunedau.

Gan barhau â'n hymrwymiad cryf i atal, mae ein gwaith 'Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig' wedi cael cydnabyddiaeth dda. Ym mis Medi 2018, daeth dros 800 o bobl i ddigwyddiad a gynhaliwyd yn yr Ardd Fotaneg i annog y gwaith hwn. Yn yr un modd, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda meddygfeydd meddygon teulu i gefnogi rhagnodi cymdeithasol, sef dull a gynlluniwyd i roi mynediad i bobl i wasanaethau sy'n cefnogi eu hiechyd a'u llesiant, gan atal neu ohirio'r angen am wasanaethau statudol neu sefydlu cefnogaeth o fewn eu cymunedau lleol. Mae gan hyn botensial aruthrol ac mae'n rhywbeth y byddwn yn ei ehangu dros y blynyddoedd nesaf.

Bu'n flwyddyn heriol ond cynhyrchiol i staff y Gwasanaethau Plant, ond bu nifer sylweddol o lwyddiannau. O fewn y Gwasanaethau Plant, mae'r gwaith o oruchwylio a herio asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau yn parhau. Mae uwch-reolwyr yn parhau i gynnal archwiliadau misol o asesiadau ac adolygiadau, a rhoddir adborth i'r rheolwyr a'r staff perthnasol.

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth: Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhoi pobl ar y trywydd iawn i gael gwybodaeth am amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â'r teulu, gan gynnwys cymorth rhianta, bod yn ddiogel, iechyd a llesiant, yn ogystal â'r "cynnig gofal plant" 30 awr am ddim. Mae'n darparu llawer o wybodaeth am wasanaethau cymorth i deuluoedd megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Tîm o Amgylch y Teulu, Canolfannau Integredig i Blant, a'r Tîm Camau Bach.

Nid yn unig y mae'r wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (<https://fis.carmarthenshire.gov.wales/?lang=cy>) "wedi mynd yn fyw" ar ddechrau Mehefin 2018, ond rydym wedi creu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol trwy datblygu tudalen Facebook fyw.

Mae'r ddau safle yn cael eu monitro'n agos ac yn parhau i ddatblygu a thyfu, gan gyrraedd cynulleidfa sy'n cynyddu'n gyson ac rydym yn hyrwyddo ein presenoldeb ar-lein drwy ddigwyddiadau a sioeau teithiol. Rydym yn gweithio'n agos gyda DEWIS, adnodd gwybodaeth ar gyfer llesiant sydd yn darparu gwybodaeth sy'n helpu pobl i feddwl am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae pob un o'n darparwyr gofal plant bellach wedi'u cynnwys ar y gofrestr gwybodaeth DEWIS. Rydym yn gweithio'n agos gyda DEWIS, i ddatblygu gwefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cenedlaethol (Cymru) a fydd yn darparu porth i gyfeirio teuluoedd a gweithwyr proffesiynol at wefannau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol a gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd rhanbarthol gyda Phowys, Sir Benfro a Cheredigion i rannu syniadau ac arfer gorau.

Mae ein gwaith ar-lein hefyd wedi'i ymestyn i'r wefan gorfforaethol ar gyfer Anabledd ac Awtistiaeth, sydd wedi'i adolygu a'i ddiweddarau mewn ymgynghoriad â theuluoedd. Rydym wedi mabwysiadu dull ar draws pob oedran yn unol â threfniadaeth ein gwasanaeth / llwybrau cyfeirio. Mae'r wefan yn cyfeirio'n glir at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd / DEWIS am fwy o wybodaeth, ac at y Tîm Atgyfeirio Canolog ar gyfer atgyfeirwyr.

Rydym yn falch iawn o'r ffaith bod un o'n pobl sy'n gadael gofal wedi cytuno i ddylunio ap ar gyfer y rhai sy'n

Gadael Gofal. Y gobaith yw y bydd yr ap yn annog pobl i feithrin cysylltiadau â phobl ifanc ôl-18. Bydd yr ap, a fydd yn saff ac yn ddiogel, yn golygu bod modd trosglwyddo arian, cofnodi gwybodaeth, anfon dolenni cyswllt i wasanaethau a rhannu ffurflenni ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc.

Defnyddir y model Signs of Safety yn ein cynadleddau achos amlasiantaeth i helpu gyda'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â phlant yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r broses wedi dod yn fwy rhyngweithiol o lawer, gan ei bod yn galluogi teuluoedd i gymryd rhan mewn modd agored a gonest. Mae hefyd yn cael ei defnyddio i adeiladu ar gryfderau a defnyddio'r rhwydwaith teulu i leihau risg a hyrwyddo datblygiad cynlluniau diogelwch da, er mwyn galluogi plant i naill ai aros yn eu cartrefi neu fyw gydag aelodau eraill o'r teulu lle bynnag y bo modd. Mae rheolwr y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi bod yn gweithio gyda'r timau asesu yn cefnogi, yn datblygu ac yn cryfhau'r model hwn o ymarfer ac yn cynorthwyo ymarferwyr arweiniol i weithio mewn partneriaeth â rhieni a theuluoedd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn drwy ein prosesau adolygu cadarn gyda'r Cadeirydd Annibynnol a thrwy'r grŵp aml-asiantaeth archwilio a gwerthuso. Mae grŵp datblygu ymarfer newydd wedi'i ffurfio, dan arweiniad Cadeirydd y gynhadledd gyda chynrychiolaeth ar draws y timau i gefnogi'r staff. Mae fforwm rhanbarthol hefyd yn cael ei sefydlu i hyrwyddo'r model ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu.

Rydym wedi ymroi i gynhyrchu dull personol o ddyrannu adnoddau ar gyfer plant anabl drwy sefydlu grŵp llywio i ysgogi'r gwaith o weithredu System Dyrannu Adnoddau. Bydd hyn yn sicrhau yn gyntaf, bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn seiliedig ar eu hangen, yn ail, ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n gwasanaethau. Dylai'r canlyniad warantu bod gofal seibiant yn cael ei ddyrannu'n deg a chyfiawn. Rydym yn ystyried y cyfle i gyflwyno'r model ar sail ranbarthol ar gyfer gwasanaethau plant. Bwriadwn dreialu'r dull hwn yn Sir Gaerfyrddin o fis Mehefin 2019 a fydd yn rhoi amser i ni ei brofi gyda theuluoedd cyn ei weithredu.

Mae'r adnodd JAFF (Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd) newydd wedi'i ddatblygu'n llwyddiannus. Cafodd ei dreialu mysg gweithwyr allweddol Teuluoedd yn Gyntaf cyn ei lansio ym mis Ebrill 2019. Mae'n crynhoi ysbryd cydgynghyrchu gyda theuluoedd.

Ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc ynghylch y Strategaeth Rhianta Corfforaethol ac ymgorfforwyd eu hadborth mewn strategaeth ddrafft sydd bellach wedi'i sefydlu. Rydym eisoes wedi cyfarfod â Chyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Etholedig ac mae dyddiadau pellach wedi'u trefnu gyda hwy i gadarnhau addewid pob adran.

Rydym wedi bod yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rôl Rhianta Corfforaethol trwy alluogi ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt i gyflawni eu potensial llawn.

Ein nod yw parhau i leihau nifer yr achosion gofal a gychwynnir sy'n arwain at fod plant wedi hynny yn Derbyn Gofal. Caiff pob cais i blant gael eu rhoi mewn gofal ei sianelu drwy'r panel llety, ac mae ein gwasanaethau ataliol yn cael eu cynnwys i helpu i sicrhau bod plant yn cael eu cadw o fewn eu teuluoedd lle bynnag y bo modd. Ar hyn o bryd, pan fydd plant yn cael eu rhoi mewn gofal, mae hyn fel rheol oherwydd problemau teuluol cymhleth lle nad yw'r plant yn gallu dychwelyd adref yn ddiogel at eu rhieni. Caiff gofal amgen mewn teuluoedd estynedig ei archwilio drwy broses y llys a thrwy gynnal asesiadau cadarn.

Mae ail-lansio'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r tîm "Ar Ffiniau Gofal" newydd yn canolbwyntio ar weithio'n ddwys gyda theuluoedd cymhleth a phlant sydd ar ymyl gofal i gadw'r plant hynny o fewn y teulu ac yn eu cymuned eu hunain ble bynnag y bo modd.

## Plant ag anableddau

Un maes sy'n peri pryder yw'r plant hynny sydd wedi dod yn oedolion ac sydd, gyda'u teuluoedd, wedi profi anawsterau wrth drosglwyddo rhwng gwasanaethau. I fynd i'r afael â'r sefyllfa hon, rydym yn datblygu cynigion i ddwyn ynghyd ein gwasanaethau anableded arbenigol i blant a phobl ifanc mewn un gwasanaeth ar gyfer

plant/pobl ifanc 0 i 25 oed. Rydym wedi cytuno ar weledigaeth gyffredin gyda'r sector addysg, darparwyr addysg bellach, y maes iechyd, a gofal cymdeithasol oedolion a phlant drwy ein gwaith 'Gwireddu Potensial'. Mae'r weledigaeth hon yn argymhell y dylai plant a phobl ifanc ag anabledau aros yn Sir Gaerfyrddin, gan fyw yn eu cymunedau pan fyddant yn gadael yr ysgol. Rhoddwyd ystyriaeth ar y cyd i'r opsiynau ar gyfer gwasanaeth wedi'i ailfodelu, gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau o fis Ebrill 2019. Mae grŵp 'Gweithio gyda'n Gilydd' wedi'i sefydlu gyda rhieni er mwyn mynd ati ar y cyd i gynhyrchu atebion i wasanaethau. Defnyddiwyd y model hwn i gyflwyno cynlluniau haf eleni, sydd wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn cychwyn y broses dendro ar gyfer y gwasanaeth ac mae nifer o rieni yn ymwneud â thîm y prosiect wrth ddylunio, comisiynu a gwerthuso'r gwasanaeth a fydd yn weithredol o Ebrill 2019.

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae hwn yn faes sy'n peri pryder ac sy'n flaenoriaeth bwysig ar draws y rhanbarth. Rydym wedi sefydlu asiantaeth fel y gallwn ddelio'n effeithiol â'r mater hwn, nid yn unig yn Sir Gaerfyrddin, ond ar draws Gorllewin Cymru. Mae Cyfarfodydd Amlasiantaeth ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE) wedi cychwyn ac yn parhau i ddatblygu.

Ein nod yw ystyried plant a phobl ifanc y tybir eu bod mewn perygl cymedrol neu sylweddol o ddioddef camfanteisio rhywiol. Un maes yr ydym wedi rhoi sylw iddo eleni yw sicrhau bod pob aelod o staff sydd heb gymwysterau wedi cael hyfforddiant diogelu sylfaenol, fel bod ganddynt ddealltwriaeth eang o'r materion dan sylw. Mae Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan weithredol yn yr holl ddigwyddiadau rhanbarthol yn ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac yn sicrhau bod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar agenda cyfarfodydd lleol gyda Rheolwyr Timau a'r Grŵp Diogelu Gweithredol Lleol. Rydym yn gweithio gyda chynllun peilot Barnardo's ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac yn cyfrannu at y cynllun gweithredu rhanbarthol.

Mae'r gwaith rhanbarthol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i wella, er gwaethaf maint ac amrywiaeth y rhanbarth. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i ddefnyddio ei adnoddau mor effeithiol â phosibl. Gydag arweiniad gan adran farchnata Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a ariennir trwy grant bach gan Lywodraeth Cymru, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi bod yn adolygu ein hymagwedd tuag at farchnata a recriwtio gan fod y galw am leoliadau mabwysiadol wedi tyfu a bod angen denu mwy o fabwysiadwyr. Roedd 35 o blant wedi eu lleoli i'w mabwysiadu yn y rhanbarth yn ystod 2018/19 a chymeradwywyd 21 o fabwysiadwyr newydd. Yn dilyn gostyngiad mewn ymholiadau yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, rydym yn croesawu'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n holi ynglŷn â dod yn fabwysiadwr, sydd yn rhywbeth y mae angen mawr amdano. Mae hyfforddiant paratoi ychwanegol wedi'i drefnu er mwyn osgoi oedi wrth asesu darpar fabwysiadwyr.

Mae gweithredu fframwaith cymorth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer mabwysiadwyr wedi gosod gofynion ychwanegol ar Wasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru i ddarparu gwasanaethau cymorth a chynnal yr adolygiad angenrheidiol o gynlluniau cymorth. Mae gweithwyr cymdeithasol yn y gwasanaeth yn parhau i gynorthwyo plant i wneud y newid o ofal maeth i'w teuluoedd mabwysiadol yn ogystal ag ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau eraill megis cymorth mabwysiadu, canfod teulu a gwaith cyfryngol.

## Recriwtio a chadw gofalwyr maeth

Yn genedlaethol, mae Cymru'n parhau i wynebu problemau wrth recriwtio gofalwyr maeth. Er gwaethaf hyn, rydym yn cael rhywfaint o lwyddiant drwy weithredu ein strategaeth recriwtio a chadw staff er mwyn denu gofalwyr maeth i mewn i'r gwasanaeth. Mae Gwasanaeth Maethu Sir Gaerfyrddin hefyd yn cyfeirio ei ffocws ar y mater hwn drwy godi ymwybyddiaeth drwy'r wefan newydd <http://www.maethusirgar.cymru/> ynghyd â digwyddiadau eraill, i ddiwallu'r angen ac i fodloni'r lleoliadau mwy heriol a chymhleth. Mae gwefan ranbarthol newydd Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mynd yn fyw hefyd. <https://maethu.canolbarthagorllewin.cymru/>

Rhagwelir y bydd ymgyrch farchnata a recriwtio genedlaethol sydd ar y gweill yn cynorthwyo'r broses recriwtio ledled Cymru ac ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae mwy o weithio rhanbarthol wedi helpu lleoliadau i fod ar gael i raddau mwy, ac mae'r gwaith o gysoni ffioedd ar draws y rhanbarth yn golygu eu bod bellach yn fwy cymharol.

Taliadau Gofal Maeth - mae'r adran (Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion) wrthi'n gweithredu cronfa ddata/system rheoli achosion newydd a elwir yn 'Eclipse', a fydd yn cael ei chyflwyno erbyn 2020. Bydd hyn yn gwella'r modd yr ydym yn cofnodi taliadau yn electronig wrth lygad y ffynnon.

Mae'r **Panel Parhauster** yn monitro'r broses o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau na chaniateir i gynlluniau gofal lithro. Cyflawnir hyn drwy gefnogi'r ffordd yr ydym yn rhyddhau gorchmynion gofal a gwneud Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig lle bynnag y bo'n briodol er mwyn cynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae hyn nid yn unig yn helpu i leihau'r boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal, mae hefyd yn helpu i sicrhau buddiannau'r plentyn y tu allan i'r gwasanaeth statudol, gan dderbyn cymorth parhaus i sicrhau sefydlogrwydd ar sail hirdymor.

Mae'r canllawiau ar gyfer y trefniant newydd 'Pan Fydda i'n Barod' ar waith a byddant yn cael eu defnyddio fel dogfen ranbarthol i gynorthwyo pobl ifanc dros 18 oed i fyw gyda'u gofawyr maeth nes eu bod yn barod i adael a chael eu cynorthwyo i wneud trefniadau byw'n annibynnol.

Dyrannwyd rhagor o fuddsoddiad i uwchraddio'r adeiladau presennol yn Garreglwyd ac mae'r tîm wedi bod yn ymwneud â chynorthwyo person ifanc drwy ei gyfnod o bontio i wasanaethau oedolion. Cofrestrwyd y gwasanaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r lefelau staffio yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y gwasanaeth yn wydn ar gyfer y dyfodol. Mae'r adeilad yn Garreglwyd yn parhau i gael ei addasu i ddiwallu anghenion y plant sy'n byw yno. Mae'n bosibl y bydd y canllawiau rhanbarthol ar gomisiynu ar gyfer plant ag anghenion cymhleth yn cynnig cyfleoedd pellach i ddatblygu'r ddarpariaeth hon.

Er mwyn cefnogi llesiant seicolegol plant sy'n derbyn gofal, rydym yn darparu lefel uchel o gymorth a hyfforddiant i'n mabwysiadwyr, ein gofawyr maeth, ein staff ysgol a'n gweithwyr cymdeithasol sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi arferion a modelau ymgysylltu sy'n berson-ganolog, sy'n berthynol, sy'n ymwybodol o drama ac sy'n ymwybodol o ymlyniad, a hynny ar draws y cartref a'r ysgol. Rydym wedi treialu Meddwlgarwch yn yr ystafell ddosbarth a bydd hyn yn cael ei ymgorffori fel rhan o'r cwricwlwm llesiant. Mae ap ffôn neu lechen ar gyfer plant o'r enw 'Speaker' bellach yn cael ei ddefnyddio mewn 30 + o ysgolion i wirio sut mae plant yn teimlo, fel y gall oedolyn allweddol gysylltu â'r plentyn os yw'n teimlo'n anhapus. Mae 3,000 o ddisgyblion yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r 'dull allgymorth' a ddatblygir yn Garreglwyd yn golygu bod modd gweithio yng nghartrefi a chymunedau pobl ble bynnag y modd, sy'n helpu i atal yr angen am wasanaethau preswyl.

Mae Dechrau'n Deg yn parhau i adeiladu ar ei lwyddiannau blaenorol, gyda 1832 o blant (0-3) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg.

Mae ein hymwelwyr iechyd yn parhau i ddarparu Rhaglen Plant Iach Cymru, gyda gwell ymweliadau â'r cartref a chan asesu gwytnwch a chydlynu pecynnau cymorth trwy ddull amlddisgyblaethol. Rydym yn cydweithio â gwasanaethau iechyd arbenigol mewnol megis gofal cymdeithasol, iaith a lleferydd a'r tîm bydweigiaeth o fewn Dechrau'n Deg.

Mae'r Ganolfan Plant Dechrau'n Deg newydd ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn Nhrimsaran yn adeiladu presenoldeb yn y gymuned gyda rhaglen ddiddorol ac amrywiol o weithgareddau gan gynnwys iaith a chwarae, clinigau iechyd, sesiynau diet a maeth, grwpiau cerdded ac ati.

Roedd y ddarpariaeth yn ysgol newydd Parc-Y-Tywyn (Porth Tywyn) i fod i agor adeg y Pasg 2019 ond oherwydd oedi yn yr ymarfer tendro, gohiriwyd yr agoriad tan fis Medi 2019.

Mae'r tîm iaith a Lleferydd yn profi materion staffio ar hyn o bryd oherwydd swydd wag a chyflenwi dros gyfnod mamolaeth. O ganlyniad, ceir oedi o ran yr amser y mae'n ei gymryd i'r plant gael eu hasesu neu eu hadolygu gan therapyddion. Fodd bynnag, mae ymgais wedi'i gwneud i leihau effaith hyn drwy gomisiynu un diwrnod bob wythnos o'r gwasanaeth iaith a Lleferydd craidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i geisio cadw'r ôl-groniad

cyn lleied â phosibl a lleihau'r amser y mae plant yn aros i gael eu hasesu.

Dechreuodd rhaglen ddiwygiedig Teuluoedd yn Gyntaf ar 1 Ebrill 2018 ac mae'n cynnwys 13 o brosiectau, gydag 8 ohonynt wedi cael eu cyflwyno gan yr Awdurdod Lleol a 5 wedi'u cyflwyno ar y cyd gan y trydydd sector a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o dan dri maes ffocws:

Cymorth Rhianta	Cymorth i Bobl Ifanc	Cymorth Anabledd
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cymorth Rhianta</b> (caffael – Gweithredu Dros Blant)</li> <li>• <b>DASH</b> (caffael – CDAS)</li> <li>• <b>Gwirfoddoli a Chymorth Cymunedol</b> (caffael – Home-Start)</li> <li>• <b>Canolfannau Teulu</b> (wedi'u heithrio rhag caffael – Plant Dewi)</li> <li>• <b>Canolfannau Plant Integredig</b> (mewnol – CSC)</li> <li>• <b>Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd a Chymorth Seicolegol</b> (mewnol – CSC)</li> <li>• <b>Gweithwyr Ymgysylltu â Theuluoedd</b> (mewnol – CSC)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gweithwyr Ieuenctid Ôl-16</b> (mewnol – CSC)</li> <li>• <b>Cymorth Ieuenctid 10-18 oed</b> (mewnol – CSC)</li> <li>• <b>Gofalwyr Ifanc</b> (mewnol – CSC)</li> <li>• <b>Tîm Iechyd Ieuenctid</b> (wedi'i eithrio rhag caffael – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Clybiau Chwarae Anabledd</b> (mewnol – CSC)</li> <li>• <b>Tîm Camau Bach</b> (mewnol – CSC)</li> </ul>

Bydd y rhaglen newydd yn cyfrannu tuag at atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ogystal â lliniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar y rheiny sydd wedi bod yn agored iddynt eisoes.

Gwasanaethau a leolir mewn lleoliadau penodol yw Canolfannau Plant Integredig sy'n darparu cymorth i blant rhwng 0 ac 12 oed a'u teuluoedd yn eu cymunedau lleol sef Morfa, Llwynhendy a Felin-foel. Mae'r canolfannau'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd i'w helpu i fod yn rhieni cadarnhaol, i ddatblygu perthnasoedd cadarn, ac i feithrin gwytnwch.

Mae'r gwasanaethau a gynigir yn cynnwys:

- Sesiynau bwmp, babi a chwarae fel teulu (0-3 oed)
- Sesiynau clwb chwarae (4-6 oed)
- Sesiynau chwarae mynediad agored (7-11 oed);

Mae'r canolfannau wedi darparu cyrsiau Iaith a Chwarae (LAP) / Rhif a Chwarae (NAP) heb eu hachredu. Mae cyrsiau rhianta a gafodd eu cyd-hwyluso wedi'u cynnal hefyd. Mae'r cyrsiau eraill yn cynnwys cyrsiau cyn-cyflogaeth wedi'u hachredu, sesiynau ffordd iach o fyw, cyrsiau tylino babanod, a digwyddiadau ymgynghori cymunedol.

Mae'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r tîm Cefnogi Pobl i ddatblygu manyleb ar y cyd ar gyfer Cam-drin Domestig, (Prosiect DASH), a fydd yn uno â'r fanyleb cefnogi pobl. Mae hyn wedi'i ohirio tra bod trefniadau comisiynu rhanbarthol yn cael eu gwneud yn eglur. Felly, bydd contract presennol DASH yn parhau am flwyddyn arall tra bod y trefniadau hyn yn cael eu cwblhau.

Mae'r ffocws datblygu ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2018/19 wedi bod ar wella ansawdd a sgiliau'r gweithlu trwy ddarparu hyfforddiant i helpu teuluoedd i adeiladu eu gwytnwch a gwella eu perthnasoedd. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar brosiectau i gyfeirio teuluoedd at wasanaethau cymorth cymunedol pryd bynnag y bo modd.

## 5 Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion

### (a) Ein gweithlu a'r modd yr ydym yn cefnogi eu rôl broffesiynol

#### Gwobrau Staff a Chydnabyddiaeth

Llongyfarchiadau mawr i'n staff Cymorth Busnes, Julie, Stacy, Mel, Claire, Paula a Vicky a wnaeth oll ennill eu Diploma NVQ Lefel 4 mewn 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth'. Da iawn chi!

Ysgrifennaf i longyfarch y staff yn Coleshill ac i ddiolch iddynt am eu llwyddiannau wrth hyrwyddo mwy o weithgareddau corfforol ac annog y cleientiaid i gymryd rhan ynddynt.

Mae'r staff wedi dangos ymroddiad a phenderfyniad mawr wrth sefydlu gweithgareddau corfforol yn llwyddiannus megis y grwpiau cerdded a gemau pêl/pêl-rwyd fel rhan o raglen y Ganolfan sydd yn gynhwysol, yn hwyl ac yn rhoi pleser i'r cleientiaid. Maent hefyd yn weithgareddau cynaliadwy sydd wedi dod yn rhan o ethos y gwasanaeth ac mae hyn yn rhywbeth sy'n aml yn her i'w gyflawni. Mae dod o hyd i rywbeth y mae pobl yn mwynhau ei wneud yn hanfodol er mwyn ennyn diddordeb pobl a pharhau i'w gynnal.

Fel ffisiotherapydd sy'n ymweld â'r ganolfan ddydd yn rheolaidd, gwelaf sut y mae hyn yn fuddiol i les corfforol y cleientiaid yn ogystal â'u lles meddyliol. Mae llawer o gleientiaid bellach yn ymwneud â'r gweithgareddau. Maent yn awyddus, yn frwdfrydig ac yn cael cefnogaeth lawn gan y staff, sydd yn hyfryd i'w weld. Mae'r staff wedi gweithio'n galed i gyflawni'r llwyddiant hwn.

A wnewch chi gyfleu fy ngwerthfawrogiad a'm diolch i'r staff.

Mae ein gweithlu plant yn parhau i fod yn sefydlog ar y cyfan, gyda lefelau'r swyddi gwag mewn gwaith cymdeithasol yn gyson isel.

Mae cadw nifer y swyddi gwag mor isel ag y bo modd yn hollbwysig wrth sicrhau bod ein holl blant y mae angen gofal a chymorth arnynt, a phlant sy'n derbyn gofal, yn cael eu diogelu. Nododd adolygiad rhanbarthol fod ein gwasanaeth gwaith cymdeithasol plant yn recriwtio ac yn cadw staff yn dda, gyda chyfradd isel iawn o swyddi gwag mewn timau.

Ym maes gofal cymdeithasol i oedolion ceir cyfradd uwch o drosiant mewn swyddi gwaith cymdeithasol, gyda chadw staff yng ngorllewin y Sir yn peri her arbennig. Mae yna fylchau systemig yng nghyflenwad y swyddi ffisiotherapi, nyrsio a therapi galwedigaethol ac rydym yn dibynnu ar fentrau hyfforddi cenedlaethol i lenwi'r bylchau hyn. Mae'r mentrau hyn yn dechrau dangos arwyddion cynnar eu bod yn cael effaith.



**Seremoni Raddio Cymorth Busnes y Gwasanaethau Plant**, Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2019. Da iawn chi a llongyfarchiadau ar gyflawni NVQ Lefel 4 mewn Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad. (*O'r chwith i'r dde*) Julie Hall, Victoria Charlseworth-Stack, Paula Roberts, m Stacy Jones, Claire Griffiths (Also congrats to Melanie Janes, absent).



Fel asiantaeth arweiniol ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion mae'n bwysig sicrhau bod ein staff a'r systemau sydd ar waith yn diogelu llesiant plant ac oedolion agored i niwed. Rydym yn ystyried ei bod hi'n bwysig iawn cadw gweithwyr cymdeithasol sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â phrofiad ym maes amddiffyn plant ac oedolion, gyda llwythi achosion sy'n eu galluogi i ganolbwyntio ar asesu a risg, gan gynnal ac adeiladu ar gysylltiadau ag asiantaethau eraill, a hyrwyddo gwaith diogelu trwy'r awdurdod cyfan. Caiff llwythi achosion eu monitro bob mis i sicrhau eu bod yn briodol ac yn hylaw. Mae gennym ymrwymiad cryf i sicrhau bod staff yn cael eu goruchwyllo, eu hyfforddi a'u datblygu'n rheolaidd, a bod systemau newydd yn cael eu rhoi ar waith i'n galluogi i ddangos yn well y modd y mae rheolwyr yn goruchwyllo gwaith achosion mewn gwasanaethau oedolion.

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad, ymroddiad a gwaith caled y gweithlu wrth barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a sicrhau gwelliannau ac effeithlonrwydd, er gwaethaf nifer o newidiadau diweddar i ymarfer yn sgil gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a modelau gweithio newydd. Mae'r amserlenni asesu wedi gwella ar y cyfan sydd yn dynodi ein bod, yn achos y rheiny sydd fwyaf agored i niwed, yn gallu cynnig gwasanaeth amserol.

Mae cyfarfodydd y Grŵp Gwella Adborth yn cael eu cynnal yn chwarterol gyda chynrychiolwyr o bob un o'r timau gofal plant. Cadeirydd y Grŵp yw Pennaeth y Gwasanaethau Plant ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o dimau'r gwasanaethau plant. Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, beth nad yw'n gweithio'n dda, a beth allem ei wneud i wella'r gwasanaeth.

Mewn modd tebyg, ym maes oedolion mae grwpiau staff yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Cyfarwyddwr i ddarparu adborth am y gwasanaeth. Datblygwyd ystod o fentrau i gefnogi llesiant y staff ac yn ôl adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru "Gwnaethom nodi dull rhagweithiol o ymdrin â llesiant staff Cyngor Sir Gâr".

## Gwobrau BASW Cymru;

*'Hoffwn hefyd gydnabod Jayne, rheolwr ardal Tîm Adnoddau Cymunedol 3Ts. Cafodd Jayne ei chydabod yng Ngwobrau Gwaith Cymdeithasol Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain Cymru eleni am ei gwaith ar ddatblygu cymunedau sy'n deall dementia. Mae Jayne wedi bod yn gysylltiedig â'r prosiect hwn ers ei sefydlu a heb ymrwymiad, ysgogiad, arweinyddiaeth ac angerdd Jayne, gallaf ddweud yn hyderus na fyddai'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran datblygu cymunedau sy'n deall dementia yn Sir Gaerfyrddin wedi ei gyflawni. Da iawn Jayne.'*

**Caiff y gweithlu gofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin ei gynnal gan grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru a chyllid cyfatebol ychwanegol yr Awdurdod Lleol. Caiff cynlluniau'r gweithlu eu datblygu ar y cyd â'r sector a chaiff y strategaeth ei chymeradwyo drwy gyfrwng Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru. Caiff y cynllun ei reoli gan dîm Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y sector cyfan.**

Yn 2018-19, cyflwynodd Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru dros 10,425 o gyfleoedd dysgu a datblygu i weithwyr ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan, a oedd yn cynnwys 1,629 o staff y sector gofal annibynnol.

Caiff hyfforddiant ei ddarparu'n lleol neu'n rhanbarthol er mwyn helpu ymarferwyr i wella a datblygu eu sgiliau. Roedd y rhain yn cynnwys y rhaglenni canlynol:

- Dilynwyd 272 o gyrsiau hyfforddiant ar ystod o raglenni yn ymwneud â Dementia
- Dilynwyd 1,577 o gyrsiau hyfforddiant ar ystod o raglenni yn ymwneud â Diogelu
- Cafwyd 1,240 o gofrestradau hyfforddiant ledled y Cyngor ar fodiwl e-ddysgu a llyfrynau ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015. Roedd hyn yn cynnwys staff o'r Gwasanaethau Cymunedol, Addysg a Gwasanaethau Plant, yr Amgylchedd, y Gwasanaethau Corfforaethol ac Adran y Prif Weithredwr.

Ar gyfer 2019-20 bydd y meysydd canlynol yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer y gweithlu:

- Cynorthwyo'r gweithlu gofal cartref i baratoi ar gyfer cofrestru

- Cefnogi'r strategaethau hyfforddiant Diogelu a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Dementia ac Iechyd Meddwl
- Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i gefnogi'r cynnig rhagweithiol 'Mwy na geiriau'
- Cynorthwyo rheolwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu a chymhwyso
- Gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Iechyd i gyflwyno'r cynllun peilot rhanbarthol ar gyfer y rhaglen Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd
- Cyflwyno rhaglenni Cymhwyso ac Ôl-gymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
- Cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol
- Cefnogi'r ymgyrch genedlaethol 'Gofalwn Cymru' i gefnogi'r gwaith o recriwtio i'r sector
- Gwella cyfraddau cadw staff gofal cymdeithasol oedolion yng ngorllewin y sir.

Rhoddir manylion llawn am yr holl ddigwyddiadau hyfforddi drwy wefan Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru Sir Gaerfyrddin: <http://www.datblygugweithusirgar.co.uk/>

## Mae'r adborth a gafwyd o rai o'r rhaglenni yn cynnwys:

*Ystod a dwyster gwych o siaradwyr a phynciau a alluogodd gyfranogiad eang ar draws y rhanbarth. Wedi mwynhau'r cymysgedd o grwpiau, cyfranogwyr ac amrywiaeth, mae hi bob amser yn fuddiol bod yn aml-asiantaeth. Roedd yn dda cael cymysgedd o weithdai a siaradwyr.*

Cynhadledd Diogelu Rhanbarthol,  
Tachwedd 2018.

*Rwyf ar hyn o bryd yn hyfforddi i fod yn rheolwr cartref preswyl ac mae'r cwrs hwn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar fy nysgu. Byddaf yn awr yn cyflwyno hyn i eraill yn fy sefydliad ac yn adolygu ein polisi.*

*Mae fy mhrofiad o ddysgu am Waith Cymdeithasol o'r dechrau i'r diwedd wedi bod yn ardderchog, bydd yn flin iawn gennyf ffarwelio â'r tîm yr wythnos nesaf*

## Cymwysterau mewn Gofal Cymdeithasol

Bu Tîm Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynorthwyo pobl i ymgymryd ag ystod o gymwysterau ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Yn 2018-19, cyflawnodd 65 o weithwyr gofal cymdeithasol QCFs ac Unedau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad, Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac Unedau, Tystysgrifau a Diplomâu Gofal. Yn ogystal â hyn, cyflawnodd 66 aelod o staff ystod o gymwysterau [Tystysgrifau, Diplomâu, Graddau a chymwysterau Ôl-gymhwysol] mewn Gofal Cymdeithasol, Gwaith Cymdeithasol, Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, a Chamu i Fyny i Reolaeth o Lefel 2 i Lefel 7.

Yn 2018-19 derbyniwyd a secondiwyd 44 o bobl gan Gyngor Sir Gaerfyrddin i hyfforddi fel Gweithwyr Cymdeithasol. Cynhelir yr hyfforddiant dros 3 blynedd ar gyfer myfyrwyr gradd a thros 2 flynedd ar gyfer myfyrwyr gradd meistr. Yn 2018-19, cyflawnodd 1 aelod o staff Sir Gaerfyrddin ei gymhwyster tra oedd ar secondiad. Mae'r Tîm hefyd yn gefnogol i gyflwyno **Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus [CPEL]** i weithwyr cymdeithasol cymwys, ac yn ystod 2018-19 dechreuodd 5 Gweithiwr Cymdeithasol gyrsiau CPEL.

Yn ogystal â'r rhain, dechreuodd 25 Gweithiwr Cymdeithasol ar y **Rhaglen Gadarnhau** wedi iddynt lwyddo i gwblhau eu blwyddyn gyntaf o ymarfer cymwys.

Rydym yn parhau i weithredu ein rhaglen ddatblygu ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol sydd Newydd Gymhwyso, sy'n cynnwys ystod o gyfleoedd hyfforddiant a chymorth mentora sydd yn ymestyn i'w tair blynedd gyntaf o ymarfer.

## (b) Mwy na geiriau / More than Just Words

Nod y strategaeth yw "Mwy na Geiriau" oedd cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Mae hyn wedi arwain at nifer o fentrau yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf.

Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn parhau i fod yn elfen graidd. Mae'n bwysig bod staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn hytrach na disgwyl i bobl orfod gofyn amdanynt. Cynhaliwyd adolygiad o'r gallu i gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r adran gyfan a gwelwyd ei fod yn cael ei hyrwyddo'n rhagweithiol a bod yr holl ddogfennau'n nodi dewis iaith.

Er bod hyn yn seiliedig ar sgiliau a phrofiad cyfredol, cydnabyddir bod angen gwelliant pellach yn y maes hwn ac felly mae'r staff yn cael eu hannog a'u cefnogi'n weithredol i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.


**Cyfleoedd dysgu Cymraeg** – mae'r staff wedi cymryd rhan yng nghyswrt dwys y Ganolfan Genedlaethol yn Nant Gwrtheyrn. Mae'r Ganolfan hefyd wedi lansio modiwlau e-ddysgu newydd i gefnogi pobl sydd ar ddechrau eu taith i ddysgu Cymraeg.

Mae staff gofal cymdeithasol wedi cael eu hysgogi'n fawr dros y flwyddyn ddiwethaf i ddysgu Cymraeg ac maent wedi cymryd rhan mewn amryw o lwybrau dysgu er mwyn gwella eu sgiliau iaith, eu hyder a'u defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys y cwrs ar-lein 10 awr i gyrraedd lefel 1; cyrsiau bloc dwys ar lefel Mynediad a Chanolradd; cyrsiau preswyl ar gyfer lefel ganolradd ac uwch; sesiynau mentora a chyswrt Cymraeg i oedolion. Gwelwyd cynnydd eleni hefyd yn nifer y staff sy'n fentoriaid Cymraeg, sydd o ganlyniad yn rhoi mwy o gymorth i'r rheiny sy'n dysgu ac yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle.

Yn sgil cyflwyno cwrs ar-lein 10 awr newydd wedi'i deilwra ar gyfer y sector gofal cymdeithasol, a'r cyllid a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gyflwyno cyrsiau, bydd datblygu sgiliau Cymraeg yn parhau i ffynnu ym maes Gofal Cymdeithasol.

Rwyf yn falch o ddweud bod Arolygiaeth Gofal Cymru wedi canfod "dull rhagweithiol o alluogi pobl i dderbyn gwasanaeth yn eu dewis iaith."

### Lefelau Iaith Gymraeg



**Recriwtio** – mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o recriwtio, gyda manylion y gofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi'u nodi ym mhob hysbyseb swydd. Ar hyn o bryd mae ymarfer recriwtio peilot mewn gofal cartref a gwaith cymdeithasol yn mynd rhagddo i recriwtio siaradwyr Gymraeg ar lefel 4.

**Arweinwyr y Gymraeg** – Mae'r arweinwyr yn yr Is-adran Hamdden a Diwylliant o fewn yr Adran Cymunedau wedi hen ennill eu plwyf ac yn parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg a'n cyfrifoldebau i hyrwyddo'r iaith. Maent wedi cynnal gwiriadau mewnol ar arwyddion, posteri, dogfennaeth ac ati ac wedi arwain ar weithgareddau hyrwyddo amrywiol megis Diwrnod Shwmae, Sumae, a gynhaliwyd ar 15 Hydref. Mae carfan newydd o arweinwyr o'r Gwasanaethau Plant wedi derbyn yr hyfforddiant ac yn awr byddant yn ymuno â'r Arweinwyr o'r Adran Cymunedau i ffurfio un rhwydwaith. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth yn cyfarfod â'r Arweinwyr ar sail 1:1 er mwyn paratoi cynlluniau gweithredu unigol.

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg** - Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn cwrdd bob deufis ac yn mynd ati i hyrwyddo amcanion y Strategaeth Mwy na Geiriau. Y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yw'r cadeirydd.

Gwnaethpwyd argraff ar Grŵp Ymgynghorol Cymraeg y Cyngor dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths yn sgil

**“ein dull gweithredu, y cynllun peilot, y lefelau staffio, y gwahanol arolygon a gynhaliwyd gennym a'r ffaith fod yna gyfres gyfan o hyfforddiant a bod y staff yn manteisio arni.”**

Er bod mwy i'w wneud yn y maes hwn, mae cynnydd da yn cael ei wneud.

## (c) Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae Sir Gaerfyrddin, fel cynghorau eraill yng Nghymru, yn wynebu gostyngiadau blynyddol yn ei gyllid gan Lywodraeth Cymru o flwyddyn i flwyddyn, ond hefyd yn gorfod cwrdd â chostau a galw cynyddol am wasanaethau.

Cyllideb Sylfaenol 2019-2020	Gwariant	Incwm	Net
	£k	£k	£k
Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel	20,405	-6,099	14,306
Gwasanaethau Integredig	47,308	-18,408	28,900
Iechyd Meddwl, Anabledau Dysgu a Diogelu	49,329	-14,182	35,148
Gwasanaethau canolog eraill	350	-42	308
Cymorth	4,403	-1,996	2,406
Comisiynu	922	-19	903
Y Bartneriaeth Ranbarthol	1,083	-810	273
Gwasanaethau Plant	19,952	-320	19,632
	<b>143,752</b>	<b>-41,876</b>	<b>101,876</b>

*Amcangyfrifwn y byddai pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu 4.1% y flwyddyn, ar gyfartaledd, mewn termau real. Mae hyn yn seiliedig ar fodel gan y London School of Economics sydd wedi'i addasu i boblogaeth Cymru. Bydd penderfyniadau a wneir ynghylch lefel y buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru yn effeithio ar y pwysau gwario ar y GIG, er bod angen rhagor o ymchwil i ddeall gwir raddau'r berthynas hon.*

\*Cyhoeddir Toby Watt ac Adam Roberts gan y Sefydliad Iechyd,

Dros y blynyddoedd nesaf, os nad oes ateb cenedlaethol, bydd rhaid i'r awdurdod gael dadl sylfaenol ynghylch y ffordd orau o ddiwallu anghenion y nifer gynyddol o bobl hŷn. Ni all y gwasanaeth ddiwallu'r anghenion a grëir gan y ddemograffeg newidiol heb leihau'r gwasanaeth a ddarperir neu ariannu gwasanaethau ar gyfraddau uwch o lawer.

## (d) Ein Gwaith Mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Lleolir yr Is-adran Gwasanaethau Plant o fewn yr Adran Addysg a Phlant, sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n hyrwyddo cysylltiadau cryfion ag ysgolion, lles addysg a gwasanaethau seicoleg addysg. Ceir cyfeiriad strategol clir ar gyfer y gwasanaeth gyda phrotocol ffurfiol ar waith ar gyfer llywodraethu gofal cymdeithasol sy'n cysylltu'r gwasanaethau plant â'r agenda gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai ehangach. Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol oruchwyliaeth dda dros faterion gwasanaethau plant a chynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yw Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol.

Canfu Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod ei harolygiad diweddar fod *"arweinyddiaeth dda yn cael ei darparu gan uwch-reolwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gweithgarwch strategol er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r amgylchedd gweithredol a'r rhaglenni i atgyfnerthu cymunedau"*.


Ceir perthynas effeithiol rhwng yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn gefnogol i waith y gwasanaethau oedolion a phlant ac yn ymweld â thimau'r rheng flaen a darparwyr gwasanaeth yn rheolaidd ac yn mynd i grwpiau cymunedol priodol yn ogystal â chynadleddau cenedlaethol perthnasol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi parhau i chwarae rhan sylweddol ym Mhartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, sy'n dod ynghyd â phartneriaid ym maes iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat yn y gwaith o drawsnewid ac integreiddio iechyd a gofal yn ardal Gorllewin Cymru. Mae'r Cyngor yn cynnal yr Uned Partneriaeth ranbarthol, sy'n cefnogi gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, a'r Cynghorydd Jane Tremlett yw cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol statudol.

Un maes ffocws penodol i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf oedd datblygu rhaglen 'Gorllewin Cymru Iachach', a fydd yn sicrhau bod y bartneriaeth yn cyflawni'r nodau craidd a geir yng nghynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol, 'Cymru Iachach' (Mehefin 2018). Mae'r rhanbarth eisoes wedi denu £11.9m o'r Gronfa Trawsnewid genedlaethol i gefnogi ein rhaglen. Mae hyn yn cynnwys dros £7m ar gyfer y rhaglen flaenllaw 'gofal rhagweithiol trwy gymorth technoleg' a fydd yn darparu cymorth ymatebol, rhagweithiol i bobl mewn cymunedau, yn gwella llesiant ac yn lleihau'r galw ar wasanaethau statudol, a bydd Llesiant Delta yn bartner cyflawni allweddol ar gyfer y rhanbarth. Caiff rhaglenni eraill, sy'n canolbwyntio ar weithio integredig mewn ardal leol a datblygu cymorth cymunedol, eu llywio gan gynlluniau llwyddiannus presennol yn Sir Gaerfyrddin.

## 6 Strwythur Rheoli

Tîm Rheoli - Adran Cymunedau  
Siart Strwythur 2019



## Atodiad 1

### Beth yw ein Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2019/2020

#### Gwasanaethau Oedolion

1. Byddwn yn sicrhau bod gennym ymagwedd ar draws pob oedran tuag at gydnerthu cymunedol, gan gynnwys sicrhau bod gan bobl agored i niwed fynediad cyfartal i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a bod hyn yn brif amcan yng nghynllun trawsnewid y gwasanaeth dydd Anabledd Dysgu. Bydd hyn yn cynnwys modelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaeth.
2. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyfrannu at raglenni gweddnewid sy'n cael eu harwain gan iechyd ym maes iechyd meddwl ac ail-ddylunio gwasanaethau ym maes anableddau dysgu gan sicrhau bod gwasanaethau a chymorth gofal iechyd meddwl priodol ar gael.
3. Yn dilyn yr adolygiad a'r ymgynghoriad ynghylch ein gwasanaeth anabledd, rydym yn gweithio tuag at fodel gydol oes ar gyfer anabledd er mwyn sicrhau pontio a llwybrau di-dor rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn.
4. Datblygu gwasanaethau i ymateb i'r cynnydd yn lefel y camddefnydd o alcohol ymhlith pobl dros 50 oed a'r effaith ar eu hiechyd a'u llesiant, yn cynnwys Niwed i'r Ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol, dementia alcoholig a chodymau.
5. Rydym yn sefydlu diwylliant o "fusnes pawb", lle mae gweithwyr proffesiynol yn perchnogi risgiau. Byddwn yn sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn rhan o hyn drwy sefydlu ymagwedd person-ganolog at ddiogelu sy'n sicrhau bod llais y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei glywed ac yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir.
6. Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth mor effeithiol â phosibl, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar a gweithio gyda sefydliadau'r gymuned a'r trydydd sector, er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i unigolion. Bydd adolygiad yn ystod y flwyddyn i ddod yn cymryd gwersi a ddysgwyd o'r fenter newydd hon ac yn eu cymhwyso.
7. Byddwn yn gwella iechyd a llesiant y boblogaeth ar draws y 3 haen trwy barhau i weithredu fframwaith ataliol gyda chanlyniadau clir ar gyfer pob haen.
  - a. Atal
  - b. Ymyrraeth gynnar
  - c. Hyrwyddo Byw'n Annibynnol
8. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i roi mwy o gyfleoedd i bobl agored i niwed a phobl hŷn gymdeithasu er mwyn lleihau unigrwydd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi.
9. Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella gwasanaeth ailalluogi/adsefydlu mwy effeithiol i gyflawni canlyniadau personol gwell.
10. Byddwn yn cefnogi pobl sy'n byw â dementia a datblygiad cymunedau a darpariaethau sy'n deall dementia ar draws y Sir
11. Byddwn yn buddsoddi yn ansawdd ein penderfyniadau a'n hymarfer gwaith cymdeithasol drwy ddarparu canllawiau a hyfforddiant priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol ac i wella'r modd y gallwn ddangos goruchwyliaeth rheolwyr dros ffeiliau achosion.
12. Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth a sicrhau gwell cydymffurfiaeth â'r 'Cynnig Rhagweithiol'.
13. Byddwn yn dwyn ynghyd ystod o strategaethau a mentrau lleol a rhanbarthol i greu un cynllun sirol ar gyfer gofalgwyr.



## Plant a Theuluoedd

1. Byddwn yn parhau i drawsnewid arferion gwaith cymdeithasol plant drwy sefydlu a datblygu'r model systematig o weithio (mewn Podiau), gan weithio'n gydlynol gyda Signs of Safety, yn cynnwys y Gwasanaethau Anabledd a Maethu.
2. Byddwn yn gweithredu trothwy rhanbarthol a threfniadau amddiffyn plant amlasiantaethol, ac yn sicrhau ymyrraeth gynnar, a defnydd o wasanaethau ataliol (gan gynnwys y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), Dechrau'n Deg, a Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd) i leihau'r angen am gyfranogiad statudol.
3. Byddwn yn parhau i oruchwylio a herio asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn effeithiol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn dangos tystiolaeth o lais y plentyn, ac yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
4. Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella'r modd y mae'r Gwasanaethau Plant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi teuluoedd, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hwylus, yn gywir, ac yn hawdd ei chyrru mewn gwahanol fformatau, a chynnal cysylltiadau â Thîm Dewis Llywodraeth Cymru. Parhau i gryfhau'r cysylltiadau â gwasanaethau cymunedol mewn perthynas â phlant ag anableddau.
5. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sefydlogrwydd lleoliadau yn unol â Chynllun Gweithredu Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin gyda golwg ar Blant sy'n Derbyn Gofal sy'n symud lleoliad 3 gwaith neu fwy, a chymryd rhan yn Strategaeth Recriwtio a Chadw Staff y Rhanbarth.
6. Byddwn yn parhau i weithredu a datblygu'r model "Signs of Safety" a'i ymgorffori'n ymarferol ym mhob tîm gwasanaethau plant.
7. Ar sail ranbarthol, byddwn yn gweithredu dull personol o ddyrannu ein hadnoddau i blant anabl, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dyrannu ar sail angen ac yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau i'r teulu.
8. Byddwn yn adolygu ein gwasanaethau preswyl i blant ag anghenion cymhleth.

## Atodiad 2

### 1. ASESIAID GOFAL CYMUNEDOL – Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal – Rhesymau Gofal Cymdeithasol

#### 1.01 Disgwyl cwblhau asesiad

### 2. TREFNIADAU GOFAL CYMUNEDOL

#### 2.01 Materion yn ymwneud â thai

- 2.01.01 Prif ffrwd
- 2.01.02 Tai Gwarchod
- 2.01.03 Arbenigol
- 2.01.04 Arall

#### 2.02 Addasu'r cartref/Materion yn ymwneud ag offer

- 2.02.01 Disgwyl cwblhau asesiad ar gyfer offer
- 2.02.02 Disgwyl cwblhau asesiad ar gyfer addasiadau
- 2.02.03 Disgwyl i addasiadau gael eu cwblhau (Grant Cyfleusterau i'r Anabl)
- 2.02.04 Aros am ddarparu offer cymunedol (ac eithrio gofal iechyd parhaus y GIG)
- 2.02.05 Aros am ddarparu cadeiriau olwyn
- 2.02.06 Aros am ddarparu offer teleofal a/neu teleiechyd
- 2.02.07 Arall

#### 2.03 Materion yn ymwneud â Gofal Cartref

- 2.04.01 Disgwyl i'r trefniadau gael eu cwblhau cyn y lleoliad
- 2.04.02 Disgwyl i reolwr y cartref gofal ymweld a gwneud asesiad o dan Safon 3 (preswyl)
- 2.04.03 Disgwyl i reolwr y cartref gofal ymweld a gwneud asesiad o dan Safon 3 (nyrsio)
- 2.04.04 Arall

#### 2.04 Trefniadau lleoliad Cartref Gofal

- 2.04.01 Disgwyl i'r trefniadau gael eu cwblhau cyn y lleoliad
- 2.04.02 Disgwyl i reolwr y cartref gofal ymweld a gwneud asesiad o dan Safon 3 (preswyl)
- 2.04.03 Disgwyl i reolwr y cartref gofal ymweld a gwneud asesiad o dan Safon 3 (nyrsio)
- 2.04.04 Arall

#### 2.05 Cyfyngiadau lle

- 2.05.01 Nid oes lle addas ar gael
- 2.05.02 Nid oes cyfleuster addas ar gael
- 2.05.03 Arall

#### 2.06 Materion yn ymwneud â chyllid

- 2.06.01 Asesiad wedi'i gwblhau, aros am awdurdodiad ariannu
- 2.06.02 Cyllid ddim ar gael ar gyfer lleoliad cartref gofal
- 2.06.03 Cyllid ddim ar gael ar gyfer pecyn gofal cartref
- 2.06.04 Arall

## Atodiad 3

### Geirfa

<b>3T's</b>	Timau Ardal Caerfyrddin	<b>JAFF</b>	Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd
<b>ACEs</b>	Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	<b>LA</b>	Awdurdod Lleol
<b>ASD</b>	Anhwylder Sbectrwm Awtistig	<b>LAC</b>	Plant sy'n Derbyn Gofal
<b>CCC</b>	Cyngor Sir Caerfyrddin	<b>MACSE</b>	Dull Amlasiantaeth o ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
<b>CHC</b>	Gofal Iechyd Parhaus	<b>MWAS</b>	Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
<b>CIW</b>	Arolygiaeth Gofal Cymru	<b>NAP</b>	Diogelu Mynediad i'r Rhwydwaith
<b>CPEL</b>	Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus	<b>NAS</b>	Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
<b>CSE</b>	Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant	<b>NEET</b>	Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
<b>CWMPAS</b>	Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru	<b>NERS</b>	Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
<b>CYPOP</b>	Hyfforddiant mewn gofal plant yn y cartref ar gyfer gofawyr plant yng Nghymru drwy'r uned "Deall sut i sefydlu gwasanaeth gofal plant yn y cartref"	<b>PCP</b>	Cynllun person-ganolog / Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
<b>CYSUR</b>	Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru	<b>PEIPIL</b>	Atal, Ymyrraeth Gynnar a Hyrwyddo Byw'n Annibynnol
<b>DASH</b>	DASH - Elusen sy'n ymdrin â Cham-drin Domestig	<b>RAS</b>	System Dyrannu Adnoddau
<b>DEWIS</b>	Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am lesiant yng Nghymru	<b>SCWWDP</b>	Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru
<b>DoLS</b>	Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid	<b>SHEP</b>	Rhaglen Gwella'r Gwyliau Haf
<b>DToc</b>	Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal	<b>SLT</b>	Tîm Lleferydd ac Iaith
<b>FF</b>	Teuluoedd yn Gyntaf	<b>SSWBA</b>	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a lesiant (Cymru) 2014
<b>FIG</b>	Grŵp Gwella Adborth	<b>TAF</b>	Y Tîm o Amgylch y Teulu
<b>FIS</b>	Y Gwasanaeth Gwybodaeth i euluoedd	<b>TIC</b>	Trawsnewid i wneud Cynnydd
<b>GP</b>	Meddygfeydd Teulu	<b>PCDDS</b>	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
<b>HCWP</b>	Rhaglen Plant Iach Cymru	<b>VAWDASV</b>	Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
<b>HDUHB</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	<b>WAO</b>	Swyddfa Archwilio Cymru
<b>IAA</b>	Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth	<b>WG</b>	Llywodraeth Cymru
<b>ICC</b>	Canolfannau Teulu Integredig	<b>WWCP</b>	Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
<b>ICF</b>	Cronfa Gofal Integredig		
<b>IFST</b>	Y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd		